

ECO'R WYDDFA

RHIF 276

MAWRTH 2001

PRIS 40c

Cau'r "Hen Dŷ" Eto?



Plant Ysgol Bethel - y grŵp cyntaf o blant i ymweld â'r Amgueddfa nôl yn 1981.

Mae'n bosibl y bydd Angorfa, hen gartref T. Rowland Hughes, y llenor a'r bardd o Lanberis, yn gorfod cau. Ers ugain mlynedd bu'r tŷ yn Stryd y Ffynnon yn gartref i'r amgueddfa sy'n coffau un o wŷr enwocaf Llanberis. Defnyddiwyd y tŷ hefyd fel man cyfarfod gan fudiadau amrywiol ers ei agor yn swyddogol ar Fai 23ain, 1981. Ond yng nghyfarfod mis Mawrth o Gyngor Cymuned Llanberis bydd y cynghorwyr yn trafod dyfodol y ganolfan ac nid yw'n amhosibl y bydd penderfyniad i gau y lle yn cael ei wneud.

Yr oedd sefydlu Amgueddfa T. Rowland Hughes yn ei hen gartref yn benllanw gwaith caled dros gyfnod o bum mlynedd. Yr oedd y freuddwyd o gael Amgueddfa wedi cael sylw yn yr Eco mor gynnar â 1976, ym mlwyddyn gyntaf y papur. Cyngor Cymuned Llanberis aeth ati i sefydlu Is-bwyllgor i drafod y mater a bwrw'r maen i'r wal. Llwyddwyd i gael les ar yr adeilad oddi wrth y cyngor sir. Ac, wedi paratoi yr amgueddfa a'i harddangosfa ac addasu'r adeilad, cafwyd yr agoriad swyddogol. Cynhaliwyd Cyfarfod Coffa i'r llenor yng Nghapel Gorffwysfa cyn dadorchuddio plac ar fur Angorfa ac agor drysau'r ganolfan newydd i'r cyhoedd. Yr oedd yr Amgueddfa ar y llawr cyntaf, a stafell bwyllgor neu stafell gyfarfod ynghyd â chegin ar y llawr gwaelod.

Dros y blynyddoedd defnyddiwyd y stafell gyfarfod gan amryw o fudiadau a

phwyllgorau lleol. Cynhaliwyd yno hefyd ar wahanol adegau weithgareddau fel cylchoedd meithrin a dosbarthiadau dysgu Cymraeg. Yno hefyd y cynhaliwyd holl gyfarfodydd y Cyngor Cymuned. Ond mae'r defnydd o'r lle wedi lleihau yn arw yn ddiweddar. Mae hynny'n golygu bod y Cyngor Cymuned yn gwneud colled sylweddol ar Angorfa erbyn hyn gan fod cost cynnal y tŷ (o ran treth, a gwres, cynnal a chadw a chyflog gofalwr) yn uwch o lawer na'r arian a dderbynnir oddi wrth gymdeithasau sy'n defnyddio'r lle. Yn y flwyddyn ariannol 1999-2000 gwnaed colled o £1,600, ac mae'n bosibl y bydd colled fwy fyth eleni.

Ond nid y sefyllfa ariannol yn unig sy'n peri pryder i'r Cyngor Cymuned. Mae ansicrwydd ynglŷn â'r hyn sydd orau i'w wneud â'r Amgueddfa hefyd. Y gwir yw mai ychydig iawn o ddefnydd a wneir o'r arddangosfa yno erbyn hyn. Prin iawn er enghraifft yw'r



Dylan Cadwaladr Parry, gof yr Amgueddfa Lechi, gydag un o'r dreigiau haearn a wnaed ganddo i'w gwerthu wrth ddathlu Gwyl Ddewi

ysgolion sydd wedi ymweld ag Angorfa ers blynyddoedd. Mae'r Cyngor Cymuned yn gofidio am hynny o feddwl bod sawl cenhedlaeth o blant wedi colli'r cyfle i weld lluniau a chreiriau a fyddai wedi eu helpu i ddysgu am un o lenorion mwyaf Cymru'r Ugeinfed Ganrif. Mae'r Cyngor yn cydnabod fodd bynnag nad yw'r Amgueddfa mor hwylus ag y gallai fod, o ran ei lleoliad ar y llawr cyntaf, ac am fod rhaid gwneud trefniadau arbennig i sicrhau bod Angorfa ar gael cyn y gellir trefnu ymweliad.

Mae'n debyg mai'r gwir yw bod y rhelyw o bobl wedi hen anghofio bodolaeth yr Amgueddfa yn Angorfa. Gan fod angen gwneud trefniadau ymlaen llaw i ymweld â'r lle does ond llond dwrn o unigolion yn galw yno bob blwyddyn erbyn hyn. Ac mae hynny yn biti mawr. Mae'r Cyngor Cymuned wedi ystyried chwilio am gartref newydd i'r Amgueddfa er mwyn ei gwneud yn fwy hwylus i bobl ymweld â hi. Byddai ail leoli'r Amgueddfa hefyd yn gyfle i ddiwygio rhywfaint arni er mwyn ei gwneud yn fwy deniadol gan fod technegau arddangos wedi newid cymaint ers i'r arddangosfa bresennol gael ei llunio ugain mlynedd yn ôl.

Mae penderfyniad anodd o flaen y Cyngor. Mae angen adnewyddu'r les gyda Chyngor Gwynedd. A oes modd cyfiawnhau gwneud hynny o gofio bod Angorfa yn costio cymaint i'r trethdalwyr oherwydd y golled ariannol o'i rhedeg? Byddai rhai, wrth gwrs, yn dadlau ei bod yn bwysig diogelu Angorfa fel canolfan gymdeithasol er gwaetha'r gost. Mae'r Cyngor wedi ceisio cynyddu'r defnydd a wneir o'r ganolfan, a thrwy hynny wrth gwrs gynyddu'r incwm, trwy hysbysu'r gymuned leol am y sefyllfa a cheisio hybu'r defnydd ohoni. Ond ni chafwyd ymateb o gwbl i'r hysbysiadau a osodwyd mewn manau amlwg yn Llanberis a Nant Peris, ac ni

25

oed
heddiw

ellir rhagweld y bydd mwy o ddefnydd nag a fu ar y ganolfan dros y misoedd nesaf.

Mae'n rhaid ystyried yr Amgueddfa wrth gwrs. Mae'n bwysig bod honno yn cael ei diogelu a'i gwneud yn hwylus i ymwelwyr, boed hynny yn Angorfa neu mewn man arall. Nid yw'r defnydd presennol a wneir ohoni yn deyrnged o fath yn y byd i'r nofelydd. Angorfa yw tŷ John Davies yn y nofel 'O Law i Law'. Wrth feddwl am 'wacau'r hen dŷ', meddai John Davies 'Bydd yn o ryfedd gweld y pethau yma'n mynd o un i un'. Byddai'n rhyfedd gweld pethau'r Amgueddfa yn cael eu symud o'r 'hen dŷ' hefyd, ond gallai hynny hyd oed fod er lles os gellid sicrhau cartref newydd mwy hwylus ar eu cyfer.

Ond pe symudid yr Amgueddfa byddai Cyngor Gwynedd wedyn yn codi'r dreth ar Angorfa yn sylweddol, gan fod y dreth ostyngol bresennol wedi ei phennu ar y ddealltwriaeth bod yr Amgueddfa yno. A phe gwneid hynny byddai'n amhosibl i'r Cyngor Cymuned gynnal Angorfa.

Bydd y Cyngor yn cyfarfod yn Angorfa nos Iau, Mawrth 15fed. Os oes gennych farn ar y mater, a gobeithio bod gan bobl Llanberis ddigon o ddiddordeb yn y lle, deudwch eich deud wrth unrhyw un o'r cynghorwyr cyn hynny, neu cysylltwch â Chlerc y Cygor, Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Llanrug.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 276
MAWRTH**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cyfni Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MAWRTH 19
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAWRTH 29

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Ebrill Mai Mehefin Gorffennaf Awst Medi Hydref Tachwedd Rhagfyr	Mawrth 19 Ebrill 16 Mai 21 Mehefin 18 Awst 27 Medi 17 Hydref 22 Tachwedd 19	Mawrth 29 Ebrill 26 Mai 31 Mehefin 28 Medi 6 Medi 27 Tachwedd 1 Tachwedd 29	Cwm-y-glo Deiniolen Brynrefail Bethel Dinorwig Penisarwaun Llanberis Caeathro	Mrs Iris Rowlands Mr W O Williams Mrs Dilys W Morris Mr Geraint Elis Miss Marian Jones Mrs Ann Evans Mr Gwilym Evans Mr Clive James

Llythyrau

Annwyl Olygydd,

Cinio Dathlu UCAC

A fydddechystal ag argraffu'r
llythyr hwn (neu ran ohono)
ar y dudalen lythyrau yn
rhifyn nesaf eich
cyhoeddiad?

Roedd Undeb Cenedlaethol
Athrawon Cymru (UCAC)
yn 60 oed ar 14 Rhagfyr 2000.
Mae'r Undeb wedi trefnu
amryw o ddigwyddiadau yn
ystod y flwyddyn addysgol
hon i ddathlu'r achlysur.

Rydym wedi sefydlu *Cynllun
Pontio* i roi cymorth i
ddysgwyr da ddod yn fwy
rhugl yn y Gymraeg; rydym
wedi lawnsio cyhoeddiad
newydd *Amser Egwyl*; ac
rydym wedi sefydlu *Archif* fel
cofnod o'r cyfraniad pwysig
mae UCAC wedi'i wneud i
addysg a diwylliant Cymru
ers ei sefydlu.

Y digwyddiad nesaf yw
dathlu'r pen-blwydd ei hun a
bwriedir gwneud hynny
mewn *Cinio Dathlu* yn ystod
y Gynhadledd Flynyddol.
Cynhelir y cinio hwn ar nos
Wener, 11 Mai 2001 yng
Ngwesty'r Belle Vue,
Aberystwyth. Y gŵr gwadd
fydd G. Wyn James, Cyn-
ysgrifennydd Cyffredinol
UCAC. Dilyniir y cinio gan
Noson o Farddoniaeth yng
nghwmni Emyr Davies, Ceri
Wyn Jones a Tudur Dylan
Jones. Fe ddylai fod yn
noson dda felly.

Mae croeso i gyn-
swyddogion, cyn-aelodau,
aelodau cyfredol a chyfeillion
ymuno â ni yn y dathlu. Os
am archebu tocyn (sy'n
costio £18 yr un) neu am
ragor o fanylion cysyllter â
Carol Jenkins, Prif Swyddfa
UCAC, Pen Roc, Rhodfa'r
Môr, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2AZ (Ffôn
01970 615577; e-bost:
swyddfa@ucac.cymru.org

Diolchir ymlaen llaw am
eich cydweithrediad parod.

Edwyn Williams
Ysgrifennydd Cyffredinol

Annwyl Gyfaill,

Ebrill y cyntaf? Dydd Ffŵl
Ebrill. Ie, ond nid i
Drefnydd Eisteddfod
Genedlaethol Cymru.
Dyma'r diwrnod y bydd
swyddfa Dinbych yn edrych
ymlaen i weld y postmon yn
gwegian dan bwysau
cynnyrch gwaith cartref
Eisteddfod Genedlaethol Sir
Ddinbych a'r Cyffiniau.
Ychydig o amser sy'n weddill
ac felly does dim amser i'w
golli er mwyn cwblhau'r
awdl, stori fer, darn o
gerddoriaeth neu un arall o'r
llu cystadlaethau.

Yna, ymhen mis, carreg
filltir arall. Mai y cyntaf yw
diwrnod cau derbyn enwau
ar gyfer y cystadlaethau
llwyfan. Ydy eich côr, parti
neu y chi fel unigolyn wedi
penderfynu dod i Ddinbych i
gystadlu eleni, rhwng 4-11
Awst? Os nad ydych, dyma
rhyw air bach i'ch atgoffa.
Mae'n siŵr fod y testunau yn
hysbys i chi erbyn hyn, gan
iddynt gael eu cyhoeddi fis
Gorffennaf diwethaf. Mae
yma rai newydd, ac mae'r
hen ffefrynnau yno i gyd.
Mae'r gwobrau yn ddigon
hael hefyd a chofiwch bod
yna gostau teithio gwerth
chweil i gorau a phartion,
hynny yn ychwanegol i'r
arian a gewch wrth ennill.
Beth amdani? Bydd croeso
twymgalon yn eich disgwyl
yn Nyffryn Clwyd. Os ydych
eisiau mwy o wybodaeth yna

cysylltwch â'r Trefnydd,
Hywel Wyn Edwards,
Swyddfa'r Eisteddfod, 15
Llain Portland, Dinbych, Sir
Ddinbych LL16 3LF, y rhif
ffôn yw (01745) 818900 ond
yn bwysicach na hynny,
anfonwch eich
cyfansoddiadau a'ch ffurflen
gystadlu ataf rhag blaen.

Yn gywir
Hywel Wyn Edwards
Trefnydd

**PEIDIWCH
A GORI
AR STORI
ANFONWCH HI I
Eco'r Wyddfa**

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)
Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Cofio am Valmai Roberts

Yng nghartref Bryn Meddyg, Llanaelhaearn ar 16 Ionawr bu farw Miss Valmai Roberts, Hendre Newydd, Lôn Ceredigion, Pwllheli, yn 83 mlwydd oed. Mae ei henw yn adnabyddus i gannoedd o blant Ysgol Brynrefail gan iddi ddod i'r ysgol fel athrawes Saesneg yn 1960 a chael ei dyrchafu'n ddirprwy brifathrawes yn 1972 cyn ymddeol yn 1977. Ni feddyliais, ar ôl dod i'w hadnabod yn yr ysgol, y buaswn yn gymydog iddi yma yn Nhrefor lle bu'n hynod garedig wrthyf a rhoi cefnogaeth dda yn ogystal.

Yn y gwasanaeth Nadolig yng Nghartref Bryn Meddyg Llanaelhaearn derbyniodd y Cymun gennyf a hynny yn hynod werthfawrogol, a oedd yn nodweddiadol ohoni, ond gwyddwn fod ei hiechyd yn fregus. Ei hoff frawddeg i mi oedd "dach chi wedi bod yn lwcus o'ch magwraeth Idris, mae, ac fe fydd hyn yn eich cadw." Roedd yn llygad ei lle.

Fe'i ganed yma yn Nhrefor, yn unig blentyn i William a Sarah Roberts ar aelwyd yr Hendre a oedd yn un grefyddol a diwylliedig. Roedd ei thad yn englynwr creffus a ddaeth dan ddylanwad R. Williams Parry ac fe dystiodd y bardd mawr hwn am William Roberts mai ef oedd 'y telynegwr gorau y gwn i amdano'. Ystyriai Bardd yr Haf fod yr englyn canlynol o eiddo William Roberts yn un o ddeg enllyn gorau'r iaith Gymraeg.

Pistyll

Bu nain a bu nain honno - a'i phiser, Hen ffasiwn odano;
Er rhoi fel hyn er cyn co', Rhed ataf yn rhad eto.'

Ar ôl addysg gynradd yn Nhrefor ac Ysgol Ramadeg Pwllheli a graddio yn Saesneg ym Mhrifysgol Bangor, treuliodd gyfnodau yn dysgu

yng nghyffiniau Manceinion a Rhyl cyn symud i Ysgol Brynrefail. Cofiaf amdani yn yr ysgol fel un a ystyriai ddisgyblaeth yn bwysig ond roedd ochr arall, garedig a hawddgar iddi yn ogystal, a chymerai ddiddordeb yng nghefndir y disgyblion, yn enwedig y rhai o'r dosbarth gweithiol. Yn fuan ar ôl ymddeol symudodd o Drefor i Bwllheli lle y taflodd ei hun i fwrlwm bywyd crefyddol a chymdeithasol prif dreflan gwlad Llŷn. Nid oedd segurdd yn rhan ohoni a bu i gymdeithasau gwirfoddol, elusnnau a mudiadau, yn cynnwys y Ganolfan Gynghori, elwa ar ei chyfraniad. Fel ei thad, roedd yn Gristion o argyhoeddiad a chafodd addoldai Annibynnwyr Maes y Neuadd, Trefor a Phenlan, Pwllheli aelod ffyddlon a thriw. Yr oedd yn gerddor medrus a châl bleser yng Nghapel Penlan yn canu'r organ.

Daeth tyrfaf gref i'w hangladd ym Mhwlheli ar ddydd Mawrth, 23 Ionawr a hefyd i'r Amlogfa ym Mangor. Gwasanaethwyd gan y Parch Iwan Llywelyn Jones, Porthmadog, y Parch Meirion Lloyd Davies, Pwllheli a'r Canon Idris Thomas, Trefor. Cafwyd terynged arbennig iawn iddi yng Nghapel Penlan gan John Emyr, Caerdydd, mab y diweddar Barchedig Emyr Roberts a fu'n weinidog yn Nhrefor ar un cyfnod ac a fu'n ddylanwad mawr ar dad Valmai Roberts. Soniodd John Emyr am gyfeillgarwch mawr ei deulu â Valmai Roberts, am ei bywyd ac am ei ffydd fawr bersonol. Ni allai gweinidog Penlan, y Parch R. Hedley Gibbard fod yn bresennol oherwydd gwaeldd ond anfonodd air i gofio amdani.

Diolch am fywyd a gwaith Valmai Roberts

Idris Thomas, Trefor

25 Mlynedd yn ôl - rhifyn Tachwedd 1976

Mae'r rhifyn hwn yn dathlu 25 mlynedd o gyhoeddi yr Eco. Daeth y rhifyn cyntaf o'r wasg ar Wyl Ddewi 1976 ac mae'r Eco wedi cofnodi a dathlu holl ddigwyddiadau'r fro yn y 25 mlynedd ers hynny. Ar y dudalen hon, a nifer o'r rhai sy'n dilyn rydym yn adgynhyrchu tudalen blaen rhifynnau a ymddangosodd yn ystod y cyfnod. Ydych chi yn eu cofio?

ECO'R WYDDFA

RIF 9 TACHWEDD 1976 Pris: 8g



APÊL ANGORFA — CARTRE'R DEWRAF O'N HAWDURON

Ymddiriedolwyr y les ar 'Angorfa', Stryd y Dŵr, Llanberis o hyn allan fydd Cyngor Cymuned Llanberis. Datgwydd hyn mewn is-bwyllgor o'r Cyngor ddiwedd y mis a seith heibio, ac yn awr y maent am lanciau spêl genedlaethol er mwyn codi arian i wynebu'r costau.

Yn 'Angorfa' y magwyd un o'r lleonion mwyaf a welodd Cymru erioed, sef y diweddar T. Rowland Hughes. Er nad yn Angorfa y cynhyrwyd y rhan helaethaf o'i waith, mae'n wir mai yno y cafodd y weledig-beth a'r symbyliad i greu ei gampweithiau llenyddol. Yn wir, dyma ddeunydd crai rhai o'i nofelau a'i gerddi. Sefiwyd 'O Law i Law' ar y fangar hon Y CYLLUNIAU

Mae cynlluniau ar droed erbyn hyn i adnewyddu'r tŷ. Mae cryn waith i'w wneud ar y tu mewn a'r tu allan. Gobaith mawr y Cyngor yw y defnyddir y tŷ gan y genedl yn ogystal â'r pentrefwyr. Ei brif ddefnydd fydd canolfan cyfarfod dyddiol i oedolion a chyn-chwarelwyr yr ardal, lle i sgwio, darllen a



blant ysgol a ddaw ar eu hynw drwy Lanberis ac hefyd i'r lluo o ymwelwyr o bob rhan o Gymru. Diolch fod gennym selodau

BETH YW MAGA?

Sefydlwyd Mudiad Addysg Gyflawn Arfon (MAGA) gan nifer o rieni a charedigion Addysg ardaloedd Cae-narfon, Brynrefail a Dyffryn Nantlle. Amcanion pennaf y mudiad yw sicrhau yr addysg orau i'n plant, drwy gyfrwng y Gymraeg. I sicrhau adnoddau ac adeiladau o'r radd flaenaf i'r ysgolion ac i sicrhau hefyd addysg berthnasol i anghenion y gymdeithas.

Mae'r mudiad am hyrwyddo addysg plant yr ardal ac am weld yr addysg honno yn adlewyrchu Cymreictod naturiol y rhan hon o Gymru. Cred y mudiad y dyllid oysylltu addysg ein hysgolion â gwir anghenion ein gymdeithas fel y gall mwy o'n plant gyfrannu i fywyd yr ardal yn lle gorffod mynd oddi yma i chwilio am waith.

ADDYSG GYMRAEG Cred MAGA fod y dirywiad yn safon Cymraeg llafar ac yn nifer y rhai sy'n ei siarad yn parhau yn frwydychus. "Does dim amheuaeth na fedr ein hysgolion wneud llawer iawn i atal y dirywiad hwn. Un ffordd o wneud hyn yw dysgu pynciau trwy'r Gymraeg".

OES POSIB? Y cwestiwn sy'n codi yw, "A ydi hyn yn bosib?" Cred MAGA ei fod, ac maent wedi ymchwilio'n fawr iawn i ystadau'r ysgolion Cymraeg yng Nghymru. Dyma i chi gynnwedd o ganlyniadau eu hymchwili:

"Mae nifer o ysgolion yng Nghymru eisoes yn dysgu'r rhan fwyaf o'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e., Ysgol Gyfun Ystalyfera - 18 pwn; Ysgol Gyfun Rhydfelen - pob pwn ond Saesneg; Ysgol Uwchradd Glan Clwyd - 18 pwn; Ysgol Gyfun Llanhari - 18 pwn; Ysgolion Cymraeg swyddogol yw'r rhai uchod, mewn ardaloedd lle mae mwyafrif y bobl yn ddi-Gymraeg. Yn wir, mae llawer o'r plant a ddaw i'r ysgolion hyn yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith."

YDI'R SAFON YN DIODEFF? Mae MAGA yn sicrhau nad yw'r safon yn gostwng yn yr ysgolion hyn. "O dderbyn canlyniadau'r arholiadau, mae'r ysgolion hyn yn well na'r cyffwrdd, e.e., Rhydfelen - Safon A, Gradd A +B 1975 - 37.7%. Cyfartaledd trwy wledydd Prydain: 23.1% Glan Clwyd - Safon O, 6 pwn neu ragor (1976): 32.1% Cyfartaledd trwy Gymru: 23.0% Mae MAGA yn bendant ar ôl eu hymchwiliadau nad yw safon Saesneg y plant yn dioddef chwaith.

SEFYLLFA GWYNEDD Dywedodd llefarydd ar ran MAGA, "Poli: Cyngor Gwynedd yw hybu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Un ysgol yng Ngwynedd yn unig sy'n dysgu mwy na deg pwn drwy gyfrwng y Gymraeg, a saith o'r rhain yn unig i Safon A. Mae gwaddill ysgolion Gwynedd ymhell ar ei hôl hi, a dyna yw'r sefyllfa yma yn Arfon".

BETH YW'R ATEB? Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o'n peth, sef bod angen cydwethrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yr cynrychiolir rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio i'r

sefyllfa yma yn Arfon."

Cyngor Gwynedd Cynllun Goddefiad Teithio 2001/2002 Amserlen y Dosbarthiad

WAUNFAWR	8 Mawrth	1.30 - 4.00	Y Ganolfan
LLANBERIS	12 Mawrth	9.30 - 12.30	Canolfan Angorfa
		1.30 - 4.00	Stryd y Ffynnon
DEINIOLEN	13 Mawrth	10.00 - 12.30	Y Llyfrgell
DINORWIG		1.30 - 2.00	Y Ganolfan
PENISARWAUN		2.15 - 3.30	Neuadd yr Eglwys
BRYNREFAIL		3.45 - 4.15	Festri'r Capel
NANT PERIS	14 Mawrth	10.00 - 10.30	Capel Rehoboth
CWM-Y-GLO		10.45 - 12.00	Ysgol y Pentref
LLANRUG		1.30 - 4.00	Hafan Elan

Rhestr o'r Prisiau a Osodir

1. Tocyn Bws Hanner Pris yn unig	Am Ddim
2. Tocyn Bws i'r Dall yn unig	Am Ddim
3. Tocyn Bws i'r Mud a'r Byddar yn unig	Am Ddim
4. Cerdyn Trên i'r Henoed yn unig	£5.00
5. Cerdyn Trên i'r Anabl yn unig	£5.00
6. Tocyn Bws a Cerdyn Trên	£13.50
7. Tocyn Bws fel ail dyroddiad	£8.50
8. Dyroddi cerdyn trên fel ail gerdyn i berson sydd yn barod wedi derbyn tocyn bws am ddim	£13.50
9. Taliad am ail docyn bws drwy golled. Os y darganfyddir mewn mis o'r pryniant gwreiddiol, ad-delfir y gost	£5.00



Prifysgol Cymru
Aberystwyth
The University of Wales

GRADD ALLANOL Prifysgol Cymru

- A hoffech roi sgleini ar eich Cymraeg ysgrifenedig?
- Neu wybod mwy am fawrion byd llenyddol a hanesyddol Cymru?
- Neu ddysgu'r sgiliau sylfaenol ym myd busnes?
- Neu feistrolir'r Ffrangeg neu'r Wyddeleg neu'r Llydaweg?
- Neu bori ym meysydd Ffilm a Theledu neu Wleidyddiaeth Ryngwladol?

Dyma eich cyfle CHI i brofi addysg prifysgol drwy ddilyn cyrsiau rhan-amser dan ofal rhai o ddarlithwyr mwyaf profiadol Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

AI DYMA'R CYFLE Y BUOCH YN DYHEU AMDANO?

- Ehangu gwybodaeth
- Gwneud ffrindiau newydd
- Ennill cymhwyster
- Gwireddu breuddwyd oes

Anfonwch NAWR am restr gyflawn o'r cyrsiau a gynigir, a manylion pellach.

P. Lynne Williams
Cyfarwyddwr Academiaidd y Radd Allanol
Adran y Gymraeg
Yr Hen Goleg, Stryd y Brenin,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AX
Ffôn: 01970-622050 E-bost: ppj@aber.ac.uk

Hybu rhagoriaeth meron dysgu ac ymchwil

O GABIN SELWYN

Dydi Ynysoedd y Caribi na'r Caneris ddim yn apelio fawr ata i bellach, ac yn ystod misoedd y gaeaf y bydda i'n anelu at le tawel yn Sbaen. Na, rhwch i mi ynysoedd fel yr Orkneys neu'r Shetlands, Ynys yr Iâ neu Ynysoedd y Faeros. Mae hyn yn dangos nad ydi tywydd poeth na dinasoedd yn apelio fawr ata i fel rwy'n mynd yn hyn.

Fel arall roedd hi ers talwm. Bywyd dinas oedd yn cynhyrfu un, a Majorca neu Minorca yn yr haf oedd y nesa peth at y nefoedd. Roedd Rhyl yn baradwys yn nyddiau glas y tripiâu Ysgol Sul ond fyddwn i ddim yn ystyried mynd i Rhyl am brynhawn hyd yn oed y dyddiau hyn, onibai fod 'na gêm bêl-droed i'm denu yno.

Rydw i'n cael rhyw gyffro mewnol o ymweld â llefydd anghysbell. Fy hoff fordaith ydi i'r North Cape a chael ymlacio yn nhawelwch y ffiords yn Norwy. Dyna pam, o bosib, yr oeddwn mor awyddus i fynd i'r pegwn arall a chael cip ar Cape Horn.

Roeddwn i wedi darllen llawer am y fangre stormus yma lle mae'r Môr Tawel, Môr Iwerydd a'r Antarctic yn cydgyfarfod i sgyrnygu dannedd ar ei gilydd. Roeddwn wedi darllen prydddest goronog y Prifardd Simon B. Jones 'Rownd yr Horn' ychydig ddyddiau cyn mynd ar y fordaith, ac yn edrych ymlaen at gael fy siglo gan donnau gwyllt y môr ym mhen draw'r byd.

Ar fore Sul, 28 Ionawr roedd y llong bleser *Norwegian Dream* yn hwylio drwy Sianel Beagle tua phorthladd Ushuaia. Doeddwn i ddim wedi sylweddoli fod talaith Patagonia yn cyrraedd mor isel ag Ushuaia - sef y ddinas bellaf yn y byd. Mae yna daith trên i'w chael yno (nid 'Trên Bach y Sgwarnogod', Twm Morus, sy'n mynd a chi rownd y byd) ond taith a ddisgrifir fel 'Train to the

end of the World'. Taith ddiddorol mewn trên stêm.

Am hanner awr wedi naw fore Llun, 29 Ionawr roeddem yn Cape Horn, ond eto 3,168 o filltiroedd i'r gogledd o Begwn y De. Ychydig iawn o longau sy'n mynd 'rownd yr Horn' y dyddiau hyn, gan fod y mwyafrif yn manteisio ar fynd trwy Gulfor Magellan. Doeddwn i ddim wedi sylweddoli mai ynys ydi Cape Horn. Na, does 'na neb yn byw arni ag eithrio dau ddyn sy'n gofalu am y goleudy am gyfnodau o chwe mis. Gan mai prin yw'r llongau sy'n mynd rownd yr Horn y dyddiau hyn mae'r ddau yn falch iawn o weld llong bleser yn galw heibio i'w cyfarch. Meddyliwch am dreulio chwe mis mewn lle mor anghysbell.

Oeddwn i'n 'sâl môr' yn Cape Horn? Choelias i fawr, roedd y môr mor bryfoclyd o dawel, a rhaid i mi gyfaddef fy mod i braidd yn siomedig am na chefais i'r un profiad ac a gafodd Bardd Coronog Prifwyl Wrecsam, 1933.

Ond mae'r môr yn beryglus o orio. Ymhen ychydig oriau ar ôl gadael Cape Horn roedd o'n sgyrnygu ei ddannedd ac yn siglo'r *Norwegian Dream* gymaint fel y bu'n rhaid i'r capten ein hysbysu na allai laniu yn Ynysoedd y Malvinas. Siom yn sicr, ond roeddem ar ein ffordd i Puerto Madryn ac roeddwn yn edrych ymlaen at gael rhoi troed ar dir y Wladfa am y tro cyntaf.

Dwi'n falch mai ar long yr es i i'r Wladfa. Wrth edrych ar y tir gwastad ar y gorwel wrth nesu at Borth Madryn, fedrwn i ddim llai na dychmygu profiad criw y Mimosa.

Tir diffaith, ac felly mae o heddiw. Does 'na fawr ddim ond anialdir gwastad rhwng Porth Madryn a Threlew a'r Gaiman. Roedd 'na dripiâu wedi eu trefnu o'r llong i ymweld â



Llun o Myra yn Tŷ Te Caerdydd yn y Gaiman

'Puerto Madryn and the Gaiman Welsh Colony'. Mae Gaiman tua 60 milltir o Borth Madryn.

O gyrraedd y Gaiman fe welir hysbyseb ar bob cornel 'Tŷ Te Caerdydd' ac at yno yr oedd y deg llong bws yn anelu i gael y te Cymreig traddodiadol a chael gwrandao ar Gôr Cymraeg y Gaiman. Myra a finna oedd yr unig Gymry ar y daith ac fe gawsom groeso i'w gofio. Y peth cynta a glywsom yn y cefndir oedd Hogia'r Wyddfa yn canu 'Maradona' ac ar ôl i aelodau'r Côr sylweddoli pwy oeddem, dywedodd un ohonyn nhw wrtha i iddo fo ennill yn Eisteddfod y Wladfa am adrodd, - ie, 'Maradona'. Ydi mae'r 'hen law' a fuodd yn ddigon o 'hen ben' i drechu'r Saeson yn dal yn arwr yn yr Ariannin, ac yn y Wladfa. Mi fydd y côr ifanc sy'n canu yn Nhŷ Te Caerdydd yn ymweld â Steddfod Llangollen eleni. Pob hwyl iddyn nhw.

Dychwelyd yn y bws a sylwi ar enwau'r tai: Tŷ Gwyn, Tŷ Nain, Siop Bara a chael cip ar y tŷ cynta a godwyd gan Gymry yn y Gaiman. O edrych ar yr anialdir sy' rhwng Porth Madryn a'r Gaiman mae'n anodd dychmygu'r profiad a gafodd ein hynafiaid a fentrodd

yn y Mimosa ganrif a hanner yn ôl.

Ar lan y môr ym Mhorth Madryn mae 'na gerflun o ferch a'i chefn at y môr. Wynebu'r anialdir ma' hi - wynebu gwlad yr addewid.

Wrth i'r *Norwegian Dream* lithro'n urddasol o olwg tir y Wladfa tua Montevideo a Buenos Aires, fe welwn i ar fideo fy nychymyg y Mimosa yn glanio ger Porth Madryn a'r paith yn wynebu ein hynafiaid:

'Cyrraedd i wenwlad eu dyheadau
Yn fintai unig at fin y tonnau,
Tirio, a'u trem ar wylltir y trumau
Yn y fro anial ar noethlwm frymau;
Ei gweld yn hagr drwy dagrau, - heb lendid,
Nid tir addewid y taer weddïau.'

(Arwll 'Patagonia'
R. Bryn Williams)

Na, doedd 'na ddim moethusrwydd ar fwrdd y Mimosa - dim gwleddoedd, dim dawnsio, dim pyllau nofio na byrddau gamblo. Dim ond mintai o Gymry yn wynebu'r paith a'u dyfodol ansicr.

Dau yn unig o Gymru oedd ar fwrdd y *Norwegian Dream* a'r ddau yn hwylio am adre, yn swm y gloddesta. Yr haul yn machlud dros erwau'r paith a'r môr yn sibrd ei gyfrinachau.

CEIROPODYDD

Mrs S. Groom MSSCh, MBChA

Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed

Triniaeth ar gyfer:

Traed Poenus; Croen Caled; Verrucae; Cyn a Chroen Caled; Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thyfino Traed.

Ffôn: (01248) 605450 neu

07747 696267 (symudol)

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael -

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)



J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

O Steddfod Ysgol Brynrefail



Enillwyr y Tlysau Pwnc.
Jess, Meirion, Ffion, Natalie, Mark, Debbie, Michelle a Gareth.



Lois Hughes (Eryri) enillydd yr adroddiad unigol a Rhys Hughes (Elidir) y perfformiad offerynnol gorau.

25 Mlynedd yn ôl – rhifyn Tachwedd 1981

ECO'R WYDDFA

64 TACHWEDD 1981 Pris 15c

CERDDDED AR WYNEB Y DYFROEDD



Golygfeydd fel y rhai a welir y lluniau yn ddigon arwydd i drigolion sarwaun a'r cych ar ôl o'r law trwm. Mae'r brau troed sydd yn croesi'n ogam ar draws y gors y pentref a'r Waun o dan modfedd o ddŵr yn aml. Gan fod nifer o bobl yn oed, a phlant yn yddio'r llybrau hyn i fynd i'r ymlaen i'r siop, y capel a'r chware, ym misarwaun mae'r peryglon mwg i bawb. Mewn rhai dd'oes dim ond rhaid i'r hwy lathen oddi ar y rhyw suddo droedfeddi i'r Y broblem yw'r Alon n, sydd yn llofrw ganol y Mae ei tharddiad yng nwl y gors, ac o'r fan honno'r afon yn llofrw heibio i Gae a Grosion Tŷ Mawr i lawr i'r Bangor, a'r môr. Mae l yr afon wedi'i llenwi â a thwyfiant o bob math ac ar aw mae'r dŵr yn codi ar s y llybrau. Mae'r ffordd at ysgol y broblem yn amlwg, elirio'r siapel, ond yn ydus, nid yw pethau mor â hyn. Y cwestiwn

Hob i fynd i'r afon i gyfeiriad ei tharddiad ar y gors cyfrifoldeb y wahanol ffermwyr sydd â'u tir yn ffinio ar yr afon yw'r gwaith o'i chadw'n lân ac o glirio'r ffosydd ar y gors. Mae'r Cyngor ydychydig yn cael swyddogion yr Awdurdod i'fyni i'r pentref i weld y broblem, ac wedi mynd mor bell â thrafod y broblem ym Mhencadlys yr Awdurdod gydag uchel swyddogion. Yn ogystal llywyddodd Mrs Larsen i gael gweithwyr i glirio'r afon dair sydd yn gwneud eu tasg wrth glirio'r afon yn amhosibl ond gobeithia Mrs Larsen y bydd y gweithwyr yn clirio'r llybrau eto cyn bo hir. Hefyd mae Mr Aled Green, un o gynrychiolwyr y pentref ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen wedi codi'r cwestiwn yn gyson mewn cyfarfodydd. Wrth gwrs cyfrifoldeb y cyngorau cymuned (yr hen gyngorau plwyf) yw'r llybrau hyn, ond unwaith yn rhagor barn Mr Green a nifer o'r eraill yw bod yr Awdurdod Dŵr yn rhannol




CLWB CEFNOGWYR YR ECO

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cododd pris cynhyrchu'r Eco bron hanner cant y swft. Tua blwyddyn yn ôl, codwyd pris y papur i dalu am bedair tudalen ychwanegol o ddeunydd. Ond ymddengys, erbyn hyn, nad yw hyn yn ddigon. Gorfodwyd ni'n ddiweddar i archwilio ffyrdd eraill o gynhyrchu'n hincwm gan nad ydym yn dymuno codi'r pris mor fuan ar ôl y codiad diwethaf. Elin dymuniad a'n bwriad yw cadw ein ffurf a'n safon arferol am y pris isaf posibl i'n darllenwyr.

Mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu Clwb Cefnogwyr yr Eco a rhan o'i walth fydd codi arian. Yn y rhifyn nesaf byddwn yn eich gwahoddi i ymaelodi, ac am gyfraniad o £6 y flwyddyn bydd cyfle i chi ennill gwobrau ariannol sylweddol.

Rhan arall o walth y Clwb fydd cynnal gweithgareddau cymdeithasol ar raddfa bro. Un enghraifft o hyn yw'r Ffag-Eisteddfod sydd eisoes wedi ei threfnu (Gweler tudalen 3). Taer erfynwn am eich cefnogaeth unwaith eto.

LLOSGI Tŷ HAF GER LLANBERIS



Am 11.30 nos Fawrth 20 Hydref golydd y Gwasanaeth Tân i ddirodd y fflamau mewn bwytyr unig uwchben Llanberis. Nid oedd neb yn y tŷ ar y pryd. Achoswyd difrod sylweddol. Gŵr o Birmingham, sy'n defnyddio Pen Ceunantisa am ran o'r flwyddyn yn unig, yw'r perchennog. Golydd yr heddlu hefyd i'r fan. Y difrod canlynol archwiliwyd y difrod gan arbenigwyr ffloresig yr heddlu.

Gwyddom bellach fod y tân wedi'i gynnwra'n fawriadol i'r rhan o ymgyrch llosgi ail gartref. Bu yngais hefyd, bron ar yr un adeg, i losgi dau dy haf ar Ynys Môn. Mewn llythyr i'r BBC ym Mangor hawliodd 'Methion Glyndwr' y cyfrifoldeb am y llosgi. Digwyddodd y tân yn Llanberis nepell o'r fan ble llosgwyd tŷ haf arall tua deunaw mis yn ôl.

Yn ôl swyddogion yr Awdurdod o ydodyn nhw'r derbyn cyfrifoldeb am glirio'r ffosydd a'r Afon Cegin i'fyni at ei tharddiad, rhaid iddyn nhw dderbyn hefyd rai cannoedd o sefyllfaoedd tebyg ledled wedyn fydd codi'r biliau dŵr i'w gwdd â chost y gwaith glanhau. Mae un peth yn sicr, os nad oes ffordd o ddatrys y broblem yn fuan mae'r golygfeydd a welir yn y lluniau yn mynd i boeni'r ardalywyr am beth amser f'ddod.

Ol-nodiad: Ar un ystyr nid yw'n deg rhoi'r bai am y sefyllfa ym Mhenisarwaun ar unrhyw

Rhyw Ddydd llyfr newydd Antur Waunfawr

Y peth cynta' dd'uda' i am fy nghopi i o Rhyw Ddydd ydi ei fod o wedi diflannu ers dyddiau. Ei adael o ar fy nesg yn y swyddfa honno'n digwydd bod yn llawn o ex-pats Waunfawr, ac mae Rhyw Ddydd wedi cael traed ers wythnos dwythfa'.

Mae pawb – ac nid jest petha' Waunfawr – wedi bod yn sbio arno fo. Mae nhw wedi bod yn dotio at y lluniau, yn giglo dros yr ysgrifau doniol, ac yn sobri dros yr ysgrifau dwys. A dyna ydi gogoniant Rhyw Ddydd – mae bywyd i gyd yno: siom, dictter, chwilfrydedd, balchder, cariad a hapusrwydd.

Mae'r Antur yn agos at galonnau pawb sydd yn gysylltiedig â Waunfawr, er nad oes angen adnabyddiaeth o griw yr Antur i werthfawrogi'r llyfr, nac i werthfawrogi amcanion a gweledigaeth y dyn a sefydlodd y fenter yn y lle cyntaf.

Yn bersonol, mae fy nyled i'n fawr i Antur Waunfawr, gan imi gyrraedd y pentref ar drothwy fy arddegau, pan oeddwn i, a phawb arall o'r oedran hunllefus hwnnw, isho bod yr un fath â'i gilydd. Ym myd y tînejar mae gwahaniaeth o unrhyw fath yn rwbath i'w wawdio a'i sbeitio, a sgidia neu



Mae'r llun yn dangos chwaraewyr, aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr tîm pêl-droed Llanrug ar ddiwedd tymor 1946-47. Erbyn hyn, mae llawer o luniau hen dimau pêl-droed Llanrug yn cael eu harddangos yn nhafarn Penbont, a'r gobaith yw gallu rhoi enw wrth bob person yn mhob llun. Mae aelodau'r pwyllgor presennol wedi gallu enwi pawb yn y llun hwn – ond un. Dyna'r dasg i chiwi ddarllenwyr yr 'Eco'. Oes unrhyw un ohonoch yn gallu enwi'r 'un dyn bach ar goll'? Dyma'r enwau sydd eisoes ar gael: Rhes gefn (chwith i'r dde) Caradog Jones, Percy Lewis, ??? Pierce Jones, Jerry Evans, Glyn Hughes, Johnnie Jones. Rhes ganol (chwith i'r dde) Thomas Williams, Jack Wilson, Owen Williams, William Pritchard, Gwilym Owen, Jones Vernon Jones, Jonathan Jones, Evan Owen, John Nevin Jones, John Owen Jones. Rhes flaen (chwith i'r dde) Arfon Davies, Goronwy Morris, Glyn Roberts, Andrew Griffith, Griffith Richard Williams a Thomas Williams.

steil gwallt 'rong' yn destun sbort a bwlio.

O gofio hynny, roedd dod wyneb yn wyneb â chriw Antur Waunfawr yn dipyn o sioc. Ac mae'n rhaid imi gyfadda fod gen i'u hofn nhw i ddechrau. Dwi'n cofio mam a dad yn penderfynu y byddan ni fel teulu yn mynd â un o hogia'r Antur – Dafydd Andrew – allan i weld

pantomeim ym Mangor. Pan gyrhaeddodd Dafydd acw, mi es i i guddiad i'n llofft. Ro'n i ofn deud neu wneud y peth anghywir, ac ro'n i'n ansicr o sut i ymddwyn yng nghwmni rhywun a oedd, yn fy meddwl i, mor 'wahanol'.

Ond roedd noson yng nghwmni Dafydd Andrew a'i 'fol chips!' yn ddigon i wneud

imi anghofio pob ofn neu ansicrwydd, a dwi 'di tyfu i'fyni yn ffrindia' effo criw yr Antur. Mae'u cyfeillgarwch nhw wedi dysgu imi fod pawb yn wahanol, fod pawb yr un mor ddilys â'i gilydd, a bod pob un ohona ni weithiau angen help, ac weithiau yn gallu cynnig helpu. A dyna be' ydi gwarediddiad ynde.

Beca Brown

CHWILOTA

RHWNG Y DDWYFFORDD : SIOP CATRIN.



Ddeufis yn ôl daeth cais am wybodaeth ynglŷn â thyddyn o'r enw Rhwng y Ddwyffordd yn Ninorwig, a'r cysylltiadau posibl rhwng y teulu a theulu Ty'n yr Ardd yn yr un ardal. Ar y pryd, doedd dim gwybodaeth am union leoliad Rhwng y Ddwyffordd. Rhwng pa ddwy ffordd yr adeiladwyd y tyddyn? Fis yn ôl cafwyd ymholiad ynglŷn â Siop Catrin yn Ninorwig. Bellach, gwyddom mai'r un lle oedd Siop Catrin a Rhwng y Ddwyffordd, a bod cysylltiad hefyd â Thy'n yr Ardd. Mae'r llun a anfonwyd gan Eirwyn Morris o Fangor (Dinorwig gynt, a chyn athro yn Ysgol Brynrefail) yn dangos murddun Rhwng y Ddwyffordd tua 1985, cyn iddo ei ddymchwel yn dilyn gwelliannau tirweddu i'r hen domenni llechi yn yr ardal.

"Rhwng y ddwyffordd," meddai, "oedd enw swyddogol Siop Catrin, ond fel 'Catrin Tŷ'r Ardd' yr adweinid hi gan bawb." Catrin Williams oedd ei henw, ac fe'i magwyd hi yn Ty'n yr Ardd, ble roedd gwinllan fechan o goed eirin yn tyfu, y rhai a ddefnyddid i wneud jam. Fel amryw o fân siopau eraill yn ardal Dinorwig, roedd yn cynnig gwasanaeth pwysig i'r trigolion, yn gwerthu ystod eang o angenrheidiau - o oel lamp i 'fint imperials'. Mae Eirwyn Morris yn cofio'r glorian fawr bres yn y siop, a charedigrwydd Catrin: "anaml

iawn y byddwn yn dod oddi yno heb ychydig o dda-da am ddim."

Nid am gadw siop yn unig roedd Catrin yn enwog yn ardal Dinorwig. Roedd ganddi hefyd y gallu i wneud eli arbennig at losgiadau, gan gynnwys llosg eira. Byddai'n gwneud yr eli allan o lard a bywllys; deilen gron a deilen gyfrinachol arall. Byddai'n rhaid i'r person oedd angen yr eli ddod â'i lard ei hun i'r siop er mwyn i Catrin fedru cynhyrchu'r trwyth! Gwawr lwyd-wyrdd oedd iddo, heb unrhyw fath o berarogl wedi ei ychwanegu. Cofia Eirwyn Morris "yr arogl anhyfryd iawn o



Murddun Siop Catrin, sef Rhwng y Ddwyffordd, tua 1985. Llun gan Eirwyn Morris.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

gwmpas pan oedd Catrin yn cynhyrchu'r trwyth mewn sosban ar y tân, ond fe dystiai a thaerai llawer iawn nad oedd ei debyg at wella losgiadau na llosg eira yn holl siopau chemist y wlad."

Cefais ar ddeall hefyd mai'r rheswm pam y galwyd y tyddyn yn Rhwng y Ddwyffordd oedd y ffaith fod rhyw hen lôn drol gul yn arwain o'r ffordd fawr heibio i gefn y tŷ, a bod y tyddyn wedi ei adeiladu yn y ffordd hon rhwng dwy ffordd.

Tybed ydi rysait yr eli at losgiadau yn dal mewn bodolaeth, neu oes rywun yn gwybod beth oedd y dail a ddefnyddid i wneud y trwyth? Oes gan unrhyw un arall o ddarlennwyr yr "Eco" wybodaeth am feddyginiaethau cartref eraill a ddefnyddid neu a gâi eu gwneud yn yr ardal ers talwm?

O Lanberis i Gricieth.

Ac o sôn am feddyginiaethau, beth tybed achosodd i ferch o Lanberis gael ei chyflogi'n forwyn i "chemist, druggist and dentist" a ymddeolodd i Gricieth yn dilyn gyrfa yn Llundain. Wrth chwiloa drwy gyfrifiad 1891 y deuthum ar draws enw Catherine Ellen Parry, dwy ar hugain oed, a genedigol o Lanberis, a oedd yn forwyn i John Owen, chemist wedi ymddeol i Causeway View, Cricieth. Roedd John Owen yn wreiddiol o Ben Llyn, ond symudodd i Lundain, a bu'n cadw busnes yn ardal Highbury o'r ddinas. Roedd ei wraig, Phoebe, yn dod o Fanceinion. Tybed a'i yng Ngricieth yn unig y bu Catherine Ellen yn forwyn i'r teulu, ynteu a oedd gyda hwy yn Llundain hefyd? Os oes rhywun yn gwybod hanes y ferch o Lanberis cysylltwch â mi.

Ffosydd a'u dirgelion.

O fewn dim i'r "Eco" diwethaf ddod o'r wasg daeth galwad oddi wrth Mrs Williams, Deiniol Terrace, Deiniolen yn sôn am ffos arall oedd yn bwydo ffos Llwyn Cogau. Sonia am ffos ddofn yn cydreddeg â therfyn tiroedd Rhianfa a'r Fron Goediog yn y creigiau ger Clwt y Bont, ac yn disgyn i lawr i'r gors ger Llwyn Cogau cyn llifo ymlaen heibio i Rydau Duon am Frynrefail.

Roedd yn rhaid ymchwilio! Felly, ar brynawn braf yn dilyn dau ddiwrnod o law trwm yn ystod y mis diwethaf, dyna

fentro i chwilio am y ffosydd; o leiaf, fe ddylent fod yn llawn dŵr wedi'r glawogydd a achosodd i'r afon Saint orlifo unwaith eto yn ardal Cwm y Glo!

Mae'n amlwg fod yr agoriad o afon Galedffrwd i ffos Llwyn Cogau wedi ei gau. Dim ond dŵr sy'n draenio o'r corsydd yn unig sy'n llifo drwy Gae ffos y felin heddiw. Mae'n amlwg hefyd fod y ffos pan gloddiwyd hi, wedi ei chodi yn uwch na'r tir o gwmpas er mwyn cario'r dŵr drwy'r hafn yn y creigiau islaw i Llwyn Cogau. Mae olion o'r ffos i'w gweld heddiw, ond mae wedi ei llenwi â phridd a thyfiant erbyn hyn. Ond ar y prynhawn yr euthum i ymweld â'r ardal, roedd y dŵr yn rhuthro heibio i Rydau Duon ac ymlaen drwy Gors y fudda am Frynrefail.

Roedd angen dringo wedyn i lefel uwch - ardal y Fron Goediog. Cefais ganiatad caredig Mr Hugh Morris, Rhianfa i grwydro'r ardal, ond gyda'r rhybudd fod y gors yn ddofn a pheryglus! Roedd yn amlwg fod mân nentydd yn llifo i lawr o greigiau'r Bigil i'r gors nes ei gwneud yn ddirlawn o ddŵr. Mae'r ffos yno i'w gweld yn glir yn rhedeg yn llinell syth ar draws tir gwlyb a chorslyd. Efallai i fân dyddynwyr yr ardal yn ystod y ganrif a hanner a aeth heibio geisio traenio'r gors er mwyn creu gweirgloddiau ar ei hymylon i ennill rhyw fymryn o dir pori.

Ond roedd yno ddirgelwch hefyd. Yn un cwr o'r gors roedd ffos arall (yn llawn dŵr yn llifo'n gyflym ar y pnawn arbennig hwnnw) yn rhedeg ar letraws i'r gors, ac wedi ei gorchuddio â chrawiau cerrig. Hynny yw, roedd y ffos yn danddaearol, a dim ond mewn un lle'n unig yr oedd i'w gweld yn weddol glir. Pam fod angen rhoi 'gorchudd' dros y ffos? Gyda diolch hefyd i Nicky o Glwt y Bont am ddangos rhan o'r ffos danddaearol i mi.

Unwaith eto bu'n rhaid chwiloa yng nghofnodion y Faenol ond peri mwy o ddryswch a wnaeth y rheini, gan nad oedd sicrwydd o enwau'r gwahanol dyddynod o un arolwg i'r llall. Gwnaed arolwg (gan gynnwys map) yn 1832 ac yna wedyn yn 1869. Roedd tiroedd y Faenol yn ymestyn o'r Galedffrwd i Lyn Padarn, gyda thiroedd Glynllifon yn eu

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

terfynu yn y Fachwen, a thiroedd Thomas Wright yn eu terfynu yn ardal Brynrefail. Roedd yno hefyd ynys o dir yn ardal Bryn Teg yn perthyn i Rowland Abraham. Ar hyd y Galedffrwd yn ardal Clwt y Bont roedd tiroedd Coed Helen.

Ond enwau'r tyddynod oedd y broblem. Maent yn ymddangos fel pe baent wedi newid rhwng y ddau arolwg, neu rhwng yr arolwg diwethaf â heddiw. Aeth y Fron Goeddiog gwreiddiol yn Fron Goeddiog bach. Bryn y Griafolen oedd yr hen enw ar y Fron Goeddiog diweddarach, ac y mae'n anodd iawn penderfynu sawl bwthyn oedd ar y daliad o'r enw Bwlch y rwdan - weithiau mae'n cadw at yr enw hwnnw, dro arall enwir ef yn Plastirion neu'n "cottage and croft" di-enw! Ac yn rhywle hefyd ymddangosodd Bryn Celyn a lle o'r enw Ffridd ar dir Ty'n y Fawnog. A phwy tybed oedd Hugh Cenwr yr enwir dau gae ar ei ôl yn 1869? Neu William Evans oedd yn berchen garrd yno?

Byddai mwy o wybodaeth, ac yn enwedig lluniau o rai o'r tyddynod hyn cyn iddynt fynd yn furddunod, yn fuddiol iawn. Erbyn y rhifyn nesaf, gobeithio y byddaf wedi cael cyfle i ddarganfod pryd yr adeiladwyd hwy a phwy oedd y trigolion cynnar.

Os oes gan unrhyw ddarlennydd wybodaeth neu ymholiad am unrhyw agwedd o hanes y fro, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn : 01286 673515)

**PEIDIWCH
A GORI
AR STORI**
anfonwch hi i
Eco'r Wyddfa

Antur Waunfawr Cyfrifiaduron yn y Gymuned

Efallai bod rhai ohonoch eisoes yn ymwybodol fod offer cyfrifiadurol arbennig yn Antur Waunfawr ar gyfer defnydd pobl leol, ac mae'r Antur yn awyddus iawn i ddatblygu'r gwasanaeth yma ymhellach. Yn ddelfrydol byddai pawb yn yr ardal yn ymwybodol o'r cyfleusterau.

Rydym yn gofyn i chwi gysylltu â'r Antur i ddweud pa fath o weithgareddau cyfrifiadurol fyddai'n ddefnyddiol. Mae nifer o bosibiliadau, fel y gwelwch isod. Ond yn fwyaf pwysig hoffem glywed beth yn union fuasech chi yn hoffi ei weld yn cael ei gynnig.

Dyma rai o'r syniadau sydd wedi dod i law:

Clinic meddalwedd: siawns i gael sgwrs gydag arbenigwr a datrys eich problemau mân a mawr. Mae'n debyg y byddai hyn yn cymryd ffurf clinic rhyw ddwy neu dair awr, gyda modd trefnu amser i ddod i drafod unrhyw gwestiynau ynglŷn â defnyddio eich cyfrifiaduwr.

Posiblirwydd arall ydi i fusnesau bychain lleol wneud defnydd o'r offer. Mae adnoddau argraffu ardderchog ar gael yn cynnwys argraffwr laser du a gwyn, ac inkjet lliw sydd yn gwneud posteri hyd at A3 mewn maint. Yn ogystal mae sganiwr a meddalwedd argraffu.

Efallai eich bod yn fyfyrwr coleg sydd angen ymarfer ei sgiliau cyflwyno. Mae projector sydd yn cael ei fwydo o'r cyfrifiaduwr yn rhan o'r adnoddau, neu efallai byddai modd 'hurio' offer fel yma i unigolion neu grwpiau. Byddai modd i unigolion neu gwmnïau drefnu i logi amser i edrych ar y We, neu dderbyn a gyrru e-bost.

Ffoniwch Jane (01286) 674 155 am sgwrs. Am fwy o fanylion am waith yr Antur, edrychwch ar ein safle ar y We:
www.anturwaunfawr.org.

15 Mlynedd yn ôl - rhifyn Ebrill 1986 Un o straeon Ffôl Ebrill yr Eco

ECO'R WYDDFA

113 EBRILL 1986 Pwys 20c

NEWIDIADAU CYFFROUS YN YR ECO

ninnau ar drothwy ein Cyfarfod Blyneddol pleser yw boeddi fod Eco'r Wyddfa ar fin agor cwys newydd sbon allu yn hanes y papurau bro Cymraeg. Yn ein hymngais fhaus i wella'n gwasanaeth i'n darllenwyr, yr eiliad y cawn bendith y cyfarfod cyffredinol, y bore wedi'r Pasg byddwn arwyddo cytundeb i argraffu'r papur ar wasg soffistigedig Rupert Murdoch yn Llundain.

Dan fanteisio ar y dulliau dera bydd y newyddion weddaraf oll, megis llyniadau darts nos Wener, ar reg eich drws fore Sul, benthir hefyd fedru cyhoeddi aiau lliw erbyn rhifyn y nifalau ym mis Gorffennaf.

I lwc y cawn ni dywydd ffrach na'r llynedd!

Mor wyrthiol yw'r dechnoleg bydd fel y gall y golygyddion holl ohebwyr pentref bellach pio eu hadroddiadau ar riant arbennig a'u hanfon yn ongyrchol i lawr llinell ffôn pencadlys yn Fortress, neu er Wopping, fel y'i gelwir. Er l y wasg ym mherfeddion egr fydd hynny nac yma nac y.

Gyda thristwch y torrir ylltiad â Gwasg Gwynedd, emarfon. Buont yn gyfeillion ddoln i Eco'r Wyddfa ers y cyn cyntaf ar wasg datws Nant ris 'slawer dydd. Fe aethom ninnau ein pwt i'w pui i gyflogi hoga lleol dros y nyddoedd a mawr hyderwn y dd i'r rheini ganfod gwaith ll buddiol yn agl y newid aethedig.

Ymfeledd yn ein tegwch â'r Wyddfa a dyletswydd arnom nodi nad yw pawb yn gytin â'r blydd newydd. Meddai Trevor kerford, Bangor, is-ygrifennydd C Gogledd Cymru: "Rha eu eilydd nhw'n defnyddio eithwyr scab. Byddwn yn ymuno piced yn Wopping i ofalu na aiff yr un copi ddod allan drwy'r r". Ond fel y defnyddiodd Mr

darblygiad ond fe'i croesawyd gan y Snowdonia National Park Association ar y sail fod y ffatriss bodur yn hagra'r fro ac yn dwyn afiechydon yn eu agl. "Gwell i'r cyfan fod yn Llundain gan fod y lle hwnnw'n uffern yn barod, a wnaiff colli un papur bro fawr o wahanideth."

Mae Trefnydd Erthyglau'r Eco yn croesawu'r darblygiad, gan nodi'n arbennig ein bod yn bwriadu defnyddio'r un wasg â'r Sun. Deallir fod ganddo gylluniau sbecial ar gyfer tudalen 3, yn enwedig pan ddechreuir y lluniau lliw.

Mae'r Trefnydd Hysbysebion yntau'n gweld cyfle i ddenu hysbysebion y cwmnïau mawr cyn belled â'u bod yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Os oes gennych chi ddarlennwyr unrhyw farn ar y darblygiadau hyn neu'n wir unrhyw fater arall yn ymwneud â'r Eco, DA CHI PEIDIWCH A'N CYMYRD YN GANIATAOL - DEWCH I'N CYFARFOD BLYNYDDOL CYFFREDINOL YNG NGAUNGYNNI, DEINIOLEN AR EBRILL 4 AM 7 O'R GLOCH. PEIDIWCH A'N DIGALONNI DRWY ADAEL Y CYFAN I'R LLOND DWRN A DDAETH Y LLYNEDD.



Mae'r Eco

Cynhelir CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA yn Neuadd Ysgol Gwaungynfi, DEINIOLEN

Nos Wener, Ebrill 4 am 7.00
Croeso i bawb sydd â diddordeb
yn yr Eco

RHIF 37 - CADAIR GLANNAU MERSI



37 o gadeiriau. Dyna'r nifer y mae Selwyn Griffith, Crud yr Awel, Bethel wedi eu hennill yn ei yrfa fel bardd eisteddfodol. Diolch i'r drefn nad yw bob un ohonynt mor fawr â'i ddiweddaraf neu buasai'n rhaid iddo chwilio am warws yn rhywle i'w storio! Selwyn oedd prifardd Eisteddfod Glannau Merswy, Lerpwl yn ddiweddar (dyma hen Eisteddfod Lewis's a adferwyd tua chwe blynedd yn ôl). Yn 1978 yr enillodd ei gadair ddiwethaf.

Ysgrifennu casgliad o gerddi gwreiddiol oedd heb eu cyhoeddi nac wedi eu gwobrwyo mewn eisteddfod o'r blaen oeddydag ar gyfer Glannau Merswy. Aeth Selwyn â chadair Eisteddfod Glannau Merswy. Mae'r gadair sy wedi ei gwneud â choed o Llyn werth tua £250.

Selwyn ati i ail wampio pryddest a sgrifennodd ar gyfer Prifwyl y Rhyf ar y testun 'Glannau'. Roedd honno yn ymdrin â pherthynas Gogledd Cymru â Lerpwl. Fe'i trodd yn 14 o gerddi.

Yn ystod gwyliau'r Pasg bydd Selwyn a Mrs Griffith yn symud o Fethel i fyw ym Mryn Eglwys, Penisarwaun. Hwn fydd y tro cyntaf erioed iddo fyw y tu allan i'r bentref enedigol. Ein dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt yn eu cartref newydd.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Wavell Roberts CIGYDD London House LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

GWASANAETH LLEOL AR GYFER

PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU ...

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYN CIG ar **675190 / 673188**



GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyraains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYDYMDEIMLAD. Yn ystod y dyddiau diwethaf bu farw Mrs Janet Murchisson mewn damwain angheuol yn Hull. Bydd pobl Penisarwaun yn cofio Janet fel Janet Hughes, oedd yn byw gyda'i nain yng Nghae Bleddyn yn ystod y chwe degau. Bu Janet yn ddisgybl yn yr ysgol yma ym Mhenisarwaun a chofir amdani fel merch fach dawel hawddgar, hoffus. Trist iawn oedd y newyddion am y ddamwain. Yr oedd Janet yn weddw ac mae'n gadael mab a merch yn ogystal â'i thad a'i mam, sef Mr a Mrs Idris Wyn Hughes. Mae pobl ypentref yn cydymdeimlo'n ddwys gyda'r teulu i gyd, rhai ohonynt yn byw yng Nghaernarfon.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Chwefror a'r enillwyd oedd:

1. Myrddin Jones, Na N'og; 2. Eifion Harding, Winllan; 3. Jean Roberts, Tai Croesion.

Gobeithir cynnal gweithgareddau tuag at y Neuadd Gymuned yn fuan. Cofiwch fod croeso i aelodau newydd ymuno â'r Clwb Cant am 50c y mis neu £6.00 y flwyddyn gan fod y Clwb yn hwb sylweddol i'r coffrau.

CYMANFA DOSBARTH CWM-Y-GLO.

Cynhelir y Gymanfa eleni yng Nghapel Tabernacl, Cwm-y-glo,

bnawn Sul, **Ebrill 8fed am 2 o'r gloch**. Arweinydd y gân fydd Mair Huws, Llanrug. Bydd detholiad bywiog o emynau i'r plant wedi'u dewis ynghyd â detholiad o emynau o'r llyfr emynau newydd, 'Caneuon Ffydd', i'r oedolion. Gwneir casgliad tuag at addysg Katalan Singano, y ferch fach fabwysiedig o Kenya.

TREFNWR ANGLADDAU. Rydym yn adnabod Dylan Griffith, Fferm Tros y Waen yn dda fel ffermwr lleol. Chwe blynedd yn ôl dechreuodd fusnes newydd sydd bellach yn fusnes llewyrchus a defnyddiol i'r ardal hon. Gan fod diddordeb mawr ganddo ym myd moduron aeth ati i arallgyfeirio o ffermio i redeg ceir ar gyfer priodasau o dan yr enw 'Ceir Clasurol yr Wyddfa' (Snowdon Classic Carriages).

Bellach, mae'n symud yn ei flaen ac yn dechrau busnes newydd arall fel ymgymwrwr angladdau annibynnol. Cred Dylan, i ddelio â phrofedigaeth a threfniadau angladd, mae angen sylw personol a theimladwy, a thrwy gynnig gwasanaeth annibynnol personol ac fel un a fagwyd yn y fro, mae'n gobeithio cyflawni'r gwasanaeth yma. Ffôn: 871833. (Symudol: 0378 127 394).

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd cyfarfod i'r aelodau yn Hafan Elan, Llanrug nos Lun, Chwefror 5. Croesawyd Mrs Margaret Latham i'r cyfarfod a diolchwyd iddi am gymryd y swydd Aelod Cofrestru am y flwyddyn. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Marjorie Roberts a Mrs Kath Jones. Darllenwyd cofnodion o'r pwyllgor diwethaf a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Trafodwyd rhai materion a godwyd ym Mhwyllgor y Ddeoniaeth ddiwedd y flwyddyn. Y gŵr gwadd oedd Mr Peter Taylor. Treuliodd Mr a Mrs Taylor eu gwyliau yn China cyn y Nadolig a chyda sleidiau bendigedig cafwyd sgwrs ganddo am eu hymweliad. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs E. Taylor a Mrs J. Ransom.

Diolchwyd iddynt ac i Mr Taylor gan Mrs Gwyneth Roberts. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Taylor ac fe'i henillwyd gan Mrs G. Roberts. Terfynwyd trwy adrodd y Gras.

CAPEL Y TABERNACL. Dydd Sul, Chwefror 4, 2001 gyda'r Parch Gwynfor Williams yn gweinyddu a Mr Gareth Jones, Llanberis wrth yr offeryn bedyddiwyd Ffion Wyn, merch fach Ken ac Alison Jones, 19 Dôl Afon.

Dyma drefn yr oedfaon am fis Mawrth:

4: Clwb y Plant am 2.00; Gwasanaeth i'w drefnu;

11: Clwb y Plant am 2.00; Parch Eric Roberts am 5.30;

18: Clwb y Plant am 2.00; Gwasanaeth i'w drefnu;

25: Clwb y Plant am 2.00; Parch Gwynfor Williams am 4.00.

Croeso cynnes i bawb.

GWELLHAD BUAN. Dymunwn

wellhad llwyr a buan i Ted a Marjorie Roberts, Bod Gwilym ar ôl damwain modur.

GENEDIGAETH. Llongyfarchion i Jennifer Jones, 4 Dôl Afon ar enedigaeth ei merch fach, Elli, wyres fach i Sandra a Keith Jones.

LLONGYFARCHIADAU i Neil a Michelle ar enedigaeth eu mab, Ben, ac i Wyn ac Iris, Glanrafon am fod yn daid a nain am y tro cyntaf.

DIOLCH. Dymuna Eifion, Avril, Alan a Marie ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth drist o golli mam a nain annwyl.

DIOLCH. Dymuna Ted a Marjorie, Bod Gwilym ddiolch yn ddiffuant i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y galwadau ffôn, cardiau, ffrwythau a blodau a dderbyniwyd ganddynt ar ôl eu damwain. Diolch yn arbennig i'r meddyg teulu a'r gweinyddesau am eu caredigrwydd. Diolch yn fawr.

DIOLCH. Dymuna Neil a Michelle ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau, cymdogion ac i'w cwsmeriaid am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu mab bach, Ben.

CYMANFA DOSBARTH CWM-Y-GLO.

Cynhelir y Gymanfa eleni yng Nghapel Tabernacl, Cwm-y-glo,

bnawn Sul, **Ebrill 8fed am 2 o'r gloch**. Arweinydd y gân fydd Mair Huws, Llanrug. Bydd detholiad bywiog o emynau i'r plant wedi'u dewis ynghyd â detholiad o emynau o'r llyfr emynau newydd, 'Caneuon Ffydd', i'r oedolion. Gwneir casgliad tuag at addysg Katalan Singano, y ferch fach fabwysiedig o Kenya.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

G. EVANS



ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

Fframia

Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161

Cyngor Cymuned Llanberis.

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau, 15fed o fis Chwefror yn "Angorfa", Llanberis gyda'r Cynghorydd Dei Tomos yn y gadair.

Bydd dyfodol "Angorfa" fel amgueddfa a man cyfarfod cymunedol yn cael ei benderfynu yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Adroddodd y Clerc nad oedd unrhyw unigolyn nac unrhyw fudiad na chymdeithas o fewn y pentref wedi bod mewn cysylltiad ynglŷn â defnydd yr adeilad ers rhoi adroddiad yn y Wasg fis yn ôl.

Roedd nifer o geisiadau cynllunio i'w hystyried, ond nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol : gosod caedun dros fynedfa Siop Spar; adeiladu tŷ ar Blot 2, Padarn Lake; adeiladu garej yn Cambrian Lodge, Stryd Fawr, a newid defnydd adeilad yng Ngwesty Dolbadarn i salon prydferthwch.

Adroddodd y Clerc fod gwybodaeth ynglŷn â rheolau'r fynwent wedi eu harddangos yn gyhoeddus o fewn y gymuned dros y mis diwethaf yn gwahodd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau a phenderfynwyd mabwysiadu'r rheolau'n swyddogol. Bydd y rheolau'n weithredol o'r 1af o fis Ebrill eleni. Penderfynwyd gwneud ymholiadau ynglŷn â'r posibilrwydd o gael hysbysfwrdd i arddangos y rheolau wedi ei osod o fewn y

fynwent.

Trafodwyd nifer o lwybrau cyhoeddus. Tynnwyd sylw'r Cyngor at gyflwr rhai ohonynt gan aelodau'r cyhoedd. Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o gyflwr y tir ger Pont y Meibion, Nant Peris (Llwybr 34). Mae'r Cyngor hefyd mewn cysylltiad â Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd ynglŷn â llwybr 9/55 ar Lôn Clegir a llwybr 44 o'r Stryd Fawr i Lôn Tŷ Du yn Llanberis. Trafodwyd hefyd broblemau ynglŷn â dŵr yn gorlifo ar lwybrau yn Nant Peris. Penderfynwyd symud ymlaen gyda gwaith tacluso, trwsio ac arwyddo llwybrau 14 ac 15 yn ardal Tyddyn Charles, Pyllau Dŵr, Mur Mawr a Hafod Lydan.

Derbyniwyd nifer o lythyrau o ddiolch gan wahanol fudiadau a chymdeithasau yn dilyn cyfraniadau ariannol iddynt gan y Cyngor.

Cafwyd rhybudd gan Gyngor Gwynedd o'r bwriad i gofrestru llain o dir ger Llain Wen, Llanberis yn Grin Pentref dan reolau Cofrestru Tir Comin. Penderfynwyd fod y Cyngor yn gefnogol i fwriad o'r fath.

Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â pherchnogaeth llain o dir glas o flaen tai Nant y Ffynnon, Nant Peris.

Tynnwyd sylw'r Cyngor at gyflwr llain o dir ar y Stryd Fawr, Llanberis, a phenderfynwyd cysylltu ag Adran Iechyd Cyhoeddus Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r mater.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal ar nos Iau, 15fed o fis Mawrth yn "Angorfa" pryd y ceir anerchiad gan Mr Eurwyn Griffith, Swyddog Ardal Caernarfon/ Peris ar waith Cynllun Cwlwm Gwledig.

**Cefnogwch
ein Hysbysebwy**

**MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD**



**BANGOR
(01248)
354646**

**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU**

10 Mlynedd yn ôl—rhifyn Hydref 1991

**ECO'R
WYDDFA**



llef 172

HYDREF 1991

Pris 25c

**YR ECO I DDOD
I BEN?**

Bydd Eco'r Wyddfa yn dod i ben gyda rhifyn ola'r flwyddyn hon os na ddaw cenhedlaeth newydd o wirfoddolwyr i lenwi'r swyddi allweddol.

Mae swyddogion presennol y papur wedi bod wrth y gwaith ers blyneddau ond ac maent yn teimlo bellach nad oes ganddynt ddim byd newydd i'w cynnig.

Ers pymtheg mlynedd bu'r Eco'n un o bapurau bro mwyaf llwyddiannus Cymru. Mae ei gylchrediad wedi aros yn gyson dros 2,300 ac mae'n cynnal ei hun yn ariannol. Mae wedi ei sefydlu ei hun fel papur sy'n adlewyrchu pethau gorau'r fro a'i phobl.

Ond, erbyn hyn, y mae'r baich o'i gynnal yn pwyso'n drwm ar nifer fechan o wirfoddolwyr. Ar hyd y blyneddau gwnaethpwyd sawl apêl ar gyfer llenwi gwahanol swyddi — ond prin iawn fu'r ymateb. Prin ryfeddol hefyd fu'r gefnogaeth, yn ystod y blyneddau diwethaf, i gyfarfodydd cyffredinol y papur.

Bellach, mae'r swyddogion yn teimlo mai digon yw digon.

Oherwydd hyn, cynhelir cyfarfod arbennig yn ystod mis Tachwedd pryd y disgwylir i bob un sydd â diddordeb mis nyfodol ein papur bro i fod yn bresennol.

yn nyfodol ein papur bro i fod yn bresennol. yn nyfodol ein papur bro i fod yn bresennol. yn nyfodol ein papur bro i fod yn bresennol.

**Alwyn a Sarah Jones
BLODAU**

**RACCA
PENISARWAUN**

Blodau ar gyfer pob achlysur

Hamperi o lysiau a
ffrwythau ffres

Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod

870605



**Danfon 7 diwrnod
yr wythnos
drwy'r fro**

**Gwesty
Dolbadarn**
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYDD GWEDDI. Cynhelir gwasanaeth undebol Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwariydd yn Ffestri Capel Coch, nos Wener, Mawrth 2 am 7 o'r gloch. Croeso i aelodau eglwys Llanberis a Nant Peris.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Arwel Jones nos Fawrth, Chwefror 6. Diolch iddo am ddod atom i gynnal cwis diddorol. Bydd y Cinio Gŵyl Ddewi yn cael ei gynnal yn Y Bistro, nos Fawrth, 6 Mawrth.

CAPEL COCH. Bu timau pêl-droed a phêl-rwyd yn cystadlu yng Ngornest Chwaraeon yr Ysgolion Sul yng Nghaernarfon yn ystod y gwyliu hanner tymor. Cafodd un o'r timau pêl-droed cynradd a'r tîm pêl-rwyd uwchradd hwyl arni a dod yn ail yn eu cystadlaethau. Diolch i'r rhieni a fu'n gyfrifol am y timau dros dri diwrnod y cystadlu.

DIOLCH. Dymuna Rhian Davies, Ael-y-glyn, Ffordd Clegir ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r arian a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 21.

DIOLCH. Dymuna Arwel, Alice, Nain Pen-y-groes, Idwal a Gwyneth, Merddyn Coch a'r teulu oll ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mab ac ŵyr annwyl, Dewi Llwyd. Diolch hefyd am y rhoddion tuag at ymchwil Asthma.

DIOLCH. Dymuna Catrin ac Adrian, Merddyn Coch ddiolch i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu mab, Iolo Llywelyn.

GENI: Croeso i Dyfan Sion, mab newydd Robert a Tracey, Stryd Siarlot, a brawd bach i Gethin. Diolch am bob gofal.

MARWOLAETH. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar ddydd Llun, 5 Chwefror bu farw Gwilym Preis Morris o 4 Rhes Efrog, Llanberis yn 73 mlwydd oed. Bu ei angladd yn Eglwys St. Padarn, lle'r oedd yn aelod ffyddlon, gyda'r Parchedigion Philip Hughes (Deon Gwlad), Eric Roberts (ffrind a chyn gyd-weithiwr), David Parry (priod ei nith) a Mr Derek Jones yn

gwasanaethu, a Mrs Susan Williams wrth yr organ. Gedy weddw, Olwena, merch yng nghyfraith, Carys, ac wyrion Owain, Rhys ac Iwan, ynghyd â'i frawd lorwerth a'i briod Eunice, a chwaer, Alice a'i phriod, Donald, a Nancy, Eira a Ralph (chwariydd yng nghyfraith) ac aelodau eraill o'r teulu. Derbyniwyd blodau gan y teulu yn unig, gyda rhoddion yn cael eu rhannu rhwng Ward Ogwen ac Uned Alaw Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH. Dymuna Olwena a theulu y diweddar Gwilym Peris Morris ddiolch yn ddiffuant iawn i'r teulu, ffrindiau a'r cymdogion a fu yn gymaint o gymorth iddynt yn ystod gwaeledd blin Gwilym. Am yr holl gyfraniadau ariannol tuag at Ward Ogwen ac Uned Alaw; y galwadau personol, cardiau, llythyrau a'r galwadau ffôn. I'r holl glerigwyr a fu'n gymaint o gefn a nerth i ni yn ystod y misoedd diwethaf, ac yn enwedig i staff Ysbyty Gwynedd am eu gofal arbennig - heb anghofio Mrs Susan Williams am ei gwasanaeth, ac i'r trefnwyr angladdau y Mri Myrddin Pritchard, Gwynfor Jones, Gwyn Jones a Dylan Jones. Diolch yn fawr i bawb.

CYMDEITHAS YR EGLWYS. Cynhaliwyd y Gymdeithas y mis yma yn Angorfa. Dechreuwyd y cyfarfod trwy gyda Mrs Betty Humphreys. O'r gadair heno cyflwynodd Mrs A. Parry Jones y wraig wâdd, Mrs Annette Bryn Parri, oedd wedi gwneud tâp o 12 cân a stori y tu ôl i bob un. Dechreuodd gyda hi a'i thaid a'i chwariydd yn canu ac yna ymlaen trwy ei gyrfa hyd heddiw, gyda llawer o'r cantorion yr oedd hi wedi cyfeilio iddynt yn fyd enwog erbyn hyn. Noson ddifyr dros ben. Talwyd diolchiadau i Annette ac i Mrs Nan Owen am y banded a'r raffl gan Anne, enillydd y raffl oedd Mrs Sandra Hughes.

UNDEB Y MAMAU. Brynhawn dydd Mawrth, 6 Chwefror, cynhaliwyd y cyfarfod misol yn y Rheithordy. Y Rheithor a arweiniodd y gwasanaeth a'r gweddïau agoriadol.

Etholwyd y canlynol fel swyddogion y gangen am y flwyddyn bresennol: Aelod Cofrestru: Mrs Betty Humphreys; Trysoryddes: Mrs Nan Owen; Ysgrifynyddes: Mrs Audrey Evans. Derbyniwyd y swyddi gan y tair a thynnwyd rhaglen ddiddorol ar gyfer y misoedd nesaf.

Diffyrrwyd yr aelodau gan y Rheithor pan adroddodd hen Chwedlau Cymreig. Mrs Nan Owen oedd yn ymorol am y banded a diolchodd Mrs Bet Hughes iddi hi ac hefyd i'r Rheithor a'i wraig, Sandra, am eu caredigrwydd o agor eu cartref unwaith yn rhagor. Enillwyd y raffl gan Mrs Audrey Evans.

BROWNIES. Cynhaliwyd 'Jumble Sale' tuag at y mudiad uchod yn y Ganolfan ar 8 Chwefror. Gwnaed elw o £104. Dymuna Jill 'Brown Owl', Pam 'Barney Owl' ac Anti Iola ddiolch i bawb am eu cyfraniad tuag at y noson.

Dyma enillwyr y raffl: Pêl-droed wedi ei harwyddo gan dîm pêl-droed Wrecsam: Heulwen; Tegan: Pat Turner; Siocled: Ken Sellars; Gwin: Margaret; Siocled: Iola Sellars; Camera: Jade; Gwin: Josh; Teclyn ymolchi: Josh; Basged ymolchi: Alice Butler.

Diolch o galon i bawb am ein cefnogi.

LLONGYFARCHIADAU i Michael a Gillian Thomas ar enedigaeth eu merch fach Molly - chwaer fach i David, Daniel a Meredydd.

GWELLHAD. Dymunwn wellhad buan i Gillian Thomas ar ôl cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Da gweld bod Mr Stan Jones (Dolbadarn) yn gwella ar ôl cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Hefyd dymunwn wellhad buan i Betty Graham sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Da yw gweld Ieuan Owen adref

o'r ysbyty ar ôl ei lawdriniaeth yn ddiweddar.

PLAS PENGWAITH. Hoffai swyddogion a staff y Cartref ddiolch yn fawr i deulu Mrs C.E. Thomas am eu rhodd garedig i'r Cartref er cof am eu mam.

Cawsom golledion dros y misoedd diwethaf. Bu farw Mr John H. Williams, 'Kenya' yn yr ysbyty lle roedd wedi bod ers peth amser.

Hefyd bu farw Mrs Margaret A. Roberts yn yr ysbyty ar ôl gwaeledd. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teuluoedd yn eu profedigaeth.

Dathlu eu pen-blwydd ym mis Ebrill bydd Mrs D. Griffiths, Mrs D. Barlow, Mrs Sanderson a Mr A. Williams. Dymunwn ben-blwydd hapus iddynt i gyd.

Wdedi dod i aros atom am gyfnod mae Mr. A. Williams, Mr G.M. Jones, Mrs. L. Roberts a Mrs W. Jones. Dymunwn groeso cynnes iddynt.

CYMANFA DOSBARTH CWM-Y-GLO.

Cynhelir y Gymanfa eleni yng Nghapel Tabernacl, Cwm-y-glo, bnawn Sul, **Ebrill 8fed am 2 o'r gloch.** Arweinydd y gân fydd Mair Huws, Llanrug. Bydd detholiad bywiog o emynau i'r plant wedi'u dewis ynghyd â detholiad o emynau o'r llyfr emynau newydd, 'Caneuon Ffydd', i'r oedolion. Gwneir casgliad tuag at addysg Katalan Singano, y ferch fach fabwysiedig o Kenya.

LLONGYFARCHIADAU i Michelle a Neil, Bon March ar enedigaeth eu mab Ben, brawd bach i Laura.

DIOLCH. Dymuna Michelle a Neil, Bon March ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau, cymdogion a chwsmeriaid am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu mab bach, Ben.

DRAENOG



Aeth dyn o Waunfawr i'w waith fel arfer ddiwrnod neu ddau cyn y Nadolig. Bu raid iddo deithio i Langollen a phwy welodd o yno yn y stryd ond ei fos. Pan ofynnodd hwnnw iddo beth oedd yn ei wneud mor bell oddi cartref, atebodd ei

fod 'yno'n gweithio, wrth gwr, syr'. Roedd rhaid i'r bos ei atgoffa bod y cwmni wedi cau dros y Dolig y diwrnod cynt! Mae'n amlwg ei fod yn hoff **A'N DRIW** iawn i'w waith o gofio'i fod yn ddiweddar hefyd wedi cloi ei hun yn ei fan y tu allan i'w dŷ am awr neu ddwy. Wedi mynd i nôl morthwyl o gefn y fan yr oedd o, ond fe lwyddodd i'w gloi ei hun yn y cefn. Roedd ganddo ofn gweiddi am help rhag ofn iddo ddychryn y cymdogion.

STEPHEN JONES

— Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 872491
(07770) 265976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

EMYR JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

CHIROPODIST
Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
(01286) 675754

Un funud fach...

DATHLU

Gawsoch chi wyliau heddiw, dydd dathlu pen-blwydd yr Eco'n bump ar hugain oed? Mae yna lawer o'r farn y dylai pobl Cymru fod wedi cael diwrnod o'r gwaith. Ond nid oherwydd yr Eco, ond am ei bod yn Ddydd Gŵyl Dewi. Mae pobl wedi dadlau ers tro y dylid gael Gŵyl Banc Gymreig ar ddydd ein Nawddsant. Ond gwyliau neu beidio bu pobl ledled y wlad heddiw'n dathlu mewn gwahanol ffyrdd.

Mae Gŵyl Dewi'n gyfle i nodi'n Cymreictod a'n cenedligrwydd. Mae'n ffasiynol bellach i wneud hynny trwy roi sylw i'r Cynulliad a chwifio neu wisgo'r Ddraig Goch, cefnogi'r grwpiau pop Cymreig llwyddiannus a gwirioni ar fawredd Stadiwm y Mileniwm.

Bydd geiriau Dewi a'i anogaeth i ni 'wneud y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf fi' wedi eu dyfynnu filoedd o weithiau heddiw i'n hannog i gynnal a gwarchod ein diwylliant a'n gwlad. A da hynny. Bydd gan bawb ei syniad ei hun o beth yn union sydd werth ei gadw er mwyn ffyniant gwlad a chenedl. Mae pawb sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r Eco yn credu bod cyhoeddi'r papur yn un ffordd fechan o gyfrannu at y ffyniant hwnnw. Byddai'r Gymru hon yn dlotach heb bapur bro. Ac yn dlotach heb radio a theledu a llyfrau Cymraeg. Heb sôn am fod yn dlotach heb ei hiaith.

Ac mae yna rai sy'n dal i gredu y byddai Cymru'n dlotach hefyd heb Grist a'i Groes. Mae yna rai'n dal i gredu y byddai cefnu ar Gristnogaeth yn golygu ein bod yn dibrisio gwerthoedd sydd wedi bod yn rhan annatod o'n gwead Cymreig ers canrifoedd. Gwaeth na hynny yw'r ffaith y byddem, wrth gefnu ar y Ffydd, yn cefnu ar Dduw ei hun. A pha genedl neu iaith a haeddai fyw o wneud hynny? Cedwch y Ffydd.

JOHN PRITCHARD

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog.
Ffôn: (01286) 871259

CYFEILLION EGLWYS CRIST LLANDINORIWG. Cynhaliwyd cyfarfod nos Lun, Chwefror 7. Oherwydd absenoldeb y Parchedig Gareth Parry llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchedig Tegid Roberts. Mwynhawyd gwrandao ar Miss Jean Moeller a Miss Margaret Matthews yn sgwrsio a dangos sleidiau o'u gwyliau yn Mauritius.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, Mawrth 5 pan fyddwn yn cael swper i ddathlu dydd Gŵyl Dewi Sant. Y siaradwr gwadd fydd y Parchedig Edgar Jones, Llanfachraeth.

DIOLCH. Dymuna Mrs Mary Evans, Mrs Nan Owen, Alwyn Owen a theulu'r diweddar Hugh Vaughan Evans (Uncle Môn) a fu farw yng Nghartref Bron Eryri, Llanberis ar 23 Ionawr ddatgan eu diolch diffuant am y cydymdeimlad, y cardiau a'r rhoddion at apel Eilir Williams. Diolch hefyd i'r Parch John Pritchard a'r Parch Trefor Lewis am y gwasanaeth ac i Mr Myrddin Pritchard a Mr Gwynfor Jones am y trefniadau. Diolch i Mrs Mali a staff Bron Eryri am eu gofal.

CLWB CANT PLAID CYMRU. Ionawr: £10: Mrs E. Williams, 32 Hafod Oleu; £5: Mr Graham Sutherland, Pen y bont. Chwefror: £10: Miss M.R. Jones, Tan y Caerau; £5: Y Cynghorydd Len Jones.

Mawrth: £10: Mrs Jane Thorman Jones, 14 Tai Caradog; £5: Mr Hywel Williams, 3 Pentre Helen. CYMANFA DOSBARTH CWM-Y-GLO.

Cynhelir y Gymanfa eleni yng Nghapel Tabernacl, Cwm-y-glo, bnawn Sul, **Ebrill 8fed am 2 o'r gloch**. Arweinydd y gân fydd Mair Huws, Llanrug. Bydd detholiad bywiog o emynau i'r plant wedi'u dewis ynghyd â detholiad o emynau o'r llyfr emynau newydd, 'Caneuon Ffydd', i'r oedolion. Gwneir casgliad tuag at addysg Catalan Singano, y ferch fach fabwysiedig o Kenya.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

25 Mlynedd yn ôl – rhifyn Ionawr 1996

ECO'R WYDDFA

Rhif 219

IONAWR 1996

Pris 25c

Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl ddarlennwyr,
hysbysebwy, noddwyr
a gweithwyr.

CAE CHWARAE GWERTH CHWEIL



Mae dau o bentrefi'r fro wedi eu goleuo yn ddiweddar, a Chyngor Arfon sydd i'w llongyfarch yn y naill achos a'r llall.

Yn Llanrug llifolusau'r cae pob tywydd newydd ar dir Ysgol Brynrefail sy'n disgleirio. Mae'r cae eisoes wedi cael ei agor yn swyddogol, a cheir yr hanes yn llawn ar y dudalen chwaraeon y mis hwn. Talwyd am y cae gan Gyngor Arfon, ac mae'n dda gweld y Cyngor yn buddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf ar gyfer y tro hon.

Ac yn Llanberis, goleuadau Nadoligaidd llwgar sydd wedi bod yn disgleirio yn ystod mis Rhagfyr. Unwaith eto, Cyngor Arfon fu'n gyfrifol am osod a chynnal y goleuadau sydd wedi

NADOLIG YN LLANBERIS



Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol

TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Ffôn: 871833 • Symudol: 07778 127394

SEIONT, GWYRFAI A LLYFNI

ARWERTHANT CELFI PYSGOTA

Gwesty Dolbadarn Llanberis

7 o'r gloch, nos Iau
Mawrth 15fed 2001

Croeso i bawb ddod a unrhyw beth o ddiddordeb
pysgota i'w werthu ar y noson

Mwy o wybodaeth?
...ffoniwch...

(01248) 670 666
(01286) 871 433

antur WAUNFAWR

'Rhyw Ddydd' llyfr newydd Antur Waunfawr

cynnig gobaith newydd i gymdeithas
ar ddechrau'r Mileniwm

yn cynnwys portreadau
Keith Morris o Wynebau Waunfawr
Golygydd Angharad Tomos

ar gael yn Antur Waunfawr pris £4.50

01286 650 721
www.anturwaunfawr.org



NATIONAL LOTTERY
CHARITIES BOARD
Wales

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PLAID CYMRU. Nos Fercher, Chwefror 14, Huw Jones o Lanwnda oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod Cangen Llanrug a'r Cylch yng Nghanolfan Penisarwaun. Cawsom annerchiad anarferol a hynod o ddiddorol am Y Cob Cymreig. Bu'r march yn bwysig iawn yng Nghymru o'r oesoedd cynnar, a dangosodd y darlithydd bod lle arbennig iddo yn llenyddiaeth Cymru - yn y Mabinogi, mewn barddoniaeth cynnar ac mewn llen gwerin. I gloi'r noson cawsom gyfres o sleidiau o'r Cob Cymreig, sydd yn gynnyrch arbennig i ni fel cenedl. Diolchodd y Llywydd, Phyllis Ellis i'r siaradwr am noson hynod o ddifyr.

Nos Iau, Mawrth 1 bydd y Gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi yn y Bistro, Llanberis, gydag adloniant gan Siân Wheway a Dafydd Roberts. Mae'r tocynnau yn awr ar gael gan yr ysgrifennydd, Olwen Llywelyn (650200).

O'R YSGOL. Mae'r tymor yma yn dymor prysur i aelodau'r Urdd. Y Sadwrn cyntaf bu'r tîm pêl-droed 7-bob-ochr yn cystadlu yn y gystadleuaeth pêl-droed. Wedi chwarae yn galed daethant yn gydradd mewn pedair gêm a cholli pedair. Da iawn chi hogia am eich gwaith caled.

Bu Mari Deiniol yn cynrychioli Sir Eryri yn y Gala Nofio Cenedlaethol yn Abertawe.

Fore Sadwrn, Chwefror 17 bu tîm pêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu yng nghystadlaethau pêl-rwyd yr Urdd ym Mangor. Wedi chwarae pedair gêm gystadleuol daethant yn fuddugol mewn dwy a cholli dwy. Da iawn chi, genod.

Dymunwn yn dda i'r holl aelodau fydd yn cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd ddechrau mis Mawrth.

DIOLCH. Dymuna Eirlys ac Ian, Sŵyn-yr-Awel, ddiolch yn gywir i ffrindiau, perthnasau a phobl yr ardal am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad, a fu'n gysur iddynt, yn eu profedigaeth drist o golli tad annwyl. Gwerthfawrogir y rhoddion o £725 a dderbyniwyd er cof am Myrddin tuag at Feddygfa

Llanrug. Diolch arbennig i'r meddygon teulu a staff y Feddygfa; i'w gyfeillion ffyddlon dros y blynyddoedd ac i bawb a wasanaethodd mewn unrhyw fodd ar ddydd ei angladd.

ER COF. Atgofion annwyl am ben-blwydd Mrs Ann Williams, Haulfan, 2 Ffordd Glanffynnon gynt, a fuasai yn 67 oed ar 5 Chwefror a hunodd 27 Chwefror 1999. Yn ei cholli yn arw - Carys, Arwel a'u teuluoedd.

LLONGYFARCHIADAU. Da iawn ti, Alex Lynes, Ty Newydd, Ffordd Glanffynnon ar gael dy ddewis yn Nofiw'r Ifanc y Flwyddyn gan y Gala Arfordir Cymru.

LLONGYFARCHIADAU i Fflur Angharad Griffiths, Llecyn ar basio yn ddiweddar, Gradd 2 ar y delyn, gydag Anrhydedd. Ei hyfforddwraig yw Manon Llwyd.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Mrs Catherine Owen, Erw Wen, Ffordd Glanffynnon ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

PEN-BLWYDD. Dymuna Meleri Mair, Llecyn ddiolch am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 18 oed. Pob dymuniad da i ti, Meleri.

SALWCH. Cofion gorau a brysiwch wella Mrs Nancy Roberts, Manod, Ffordd Glanffynnon, sy ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

Hefyd Mrs Mair Williams, Bron Haul, Ffordd Glanmoelyn sy ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri.

Cofion gorau hefyd i Mrs Margaret Christian, Corlan y Rhos. Deallwn eich bod yn gwella yn araf.

MARWOLAETH. Bu farw Mr Myrddin Williams, Penterfyn. Roedd yn byw gydag Eirlys ac Ian yn ddiweddar lle y cafodd ofal caredig iawn ganddynt. Bydd colled fawr ar yr aelwyd ac i'w gyfeillion a'r teulu.

PEN-BLWYDD HAPUS i Mam, sef Mrs E.M. Thomas (Nel Tll Clawdd) ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar 2 Mawrth. Llongyfarchiadau oddi wrth y plant a'u teuluoedd.

Pen-Blwydd Hapus

Pen-blwydd Hapus i'r Eco a llongyfarchiadau i'r rhai sydd, a'r rhai sydd wedi bod, yn gyfrifol am ei gael i'w wely am bum mlynedd ar hugain.

Pedair awr ar hugain yw hyd diwrnod pawb ohonom ond onid yw yn rhyfedd fel y mae rhai pobl yn gallu ffeindio amser i gyflawni llawer mwy yn yr amser hwnnw na'r gweddill ohonom. Mae yna ddywediad sy'n berffaith wir - 'Os yda chi eisiau job wedi ei gwneud gofynnwch i berson prysur.'

Gwerth yr Eco i mi yw fy mod yn gallu dod i wybod am yr holl waith gwirfoddol, gwerthfawr sy'n mynd ymlaen yn yr ardal na fuaswn yn gwybod dim amdano ar wahan i'r Eco.

Gwerth cyfresi cyson fel 'Chwilota', 'Un Funud Fach', O Siambr Selwyn', 'Ar Ben arall y Lein', 'Chwaraeon', a'r 'Newyddion o Ysgol Brynrefail' sy'n eli i'r galon bob mis. Fel y dywedodd Eben Fardd:

'Er hyn i gyd mae'r hen gainc Yn gref o flagur ifanc.'

Mae'r rhai sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb (a'r rhai sy'n cyfrannu) o ofalu fod copi o Bapur Bro yn gweld golau dydd yn rheolaidd bob mis yn gobeithio fod eu cyfraniad yn

rhyw hwb bychan i warchod y winllan. Maent yn gwybod mai teuluoedd heddiw sy'n magu pen-teuluoedd y dyfodol. Maent hefyd yn ymwybodol fod:

'Fory bron iawn yn heddiw A heddiw ar fin bod yn ddoe.'

Fel pawb sydd wedi bod yn darllen yr Eco ar hyd y blynyddoedd mae gennyf finau fy ffefrynau:

1. Erthyglau diddorol, digri ac addysgiadol Goronwy Owen, Porthcawl (Llanberis gynt) yn 1982;
2. Hanes cau Capel Preswylfa, Llanberis, gan fod y capel hwnnw wedi bod mor bwysig yn hanes fy nheulu i;
3. Y cwis diddorol hwnnw ple'r oedd rhywun wedi tynnu lluniau o fannau arbennig yn yr ardal. Fe ddysgais lawer wrth ddyfalu'r atebion.

Diolch am yr Eco. Bu'n bum mlynedd ar hugain gwerthfawr a dymunaf bob dymuniad da i'r pum mlynedd ar hugain nesaf.

Mair Davies

Dinas (Llanberis gynt)

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**



YN YR ARDD!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 87064

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Y CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ionawr: £40: Mrs Sian Sturman, Pennant; £25: Mr Geraint Davies, Dolgwyrfai; £10: Mrs Mair Parry, Deulyn.

DIOLCH. Carai Rhian, Ty'n Llidiart fanteisio ar y cyfle i ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a phob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd iddi yn dilyn ei damwain yn ddiweddar. Gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr iawn.

CLWB BOWLIO. Llongyfarchiadau i Emyr Evans, Arfryn ar gael ei ddewis yn un o dîm o bedwar i chwarae Bowlio Mat Byr dros Gymru. Mae Emyr eisoes wedi chwarae yn Llandrindod Wells ac ar 24 a 25 o Fawrth bydd yn cystadlu ym Mhencampwriaethau Ynysoedd Prydain yn Milton Keynes. Ym mis Tachwedd y llynedd roedd yn un o'r dyfarnwyr yn Ninbych y Pysgod. Pob lwc iddo ym mis Mawrth. Emyr yw capten tîm bowlio Waunfawr ac mae'r tîm yn gwneud yn dda iawn yng Nghynghrair Gwynedd y tymor yma. Beth am ymuno â'r clwb. Rydym yn cyfarfod bob pŵn Mawrth a phŵn Iau am 2 o'r gloch, a phob nos Fawrth am 7 o'r gloch. Os am fwy o fanylion cysylltwch â Mrs C.A. Jones, Bryn Gwenallt (650242).

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod y Sefydliad ar 1 Chwefror cafwyd sgwrs ddiddorol gan Miss Lynn Roberts o Adran yr Archifdydd, Cyngor Sir Gwynedd. Rhoddodd Miss Roberts fraslun o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn yr Archifdydd, ynghyd â sleidiau o hen ddogfennau. Diolchwyd iddi gan Mrs Mair W. Williams, y Llywydd.

Mis Mawrth Mrs Mary Vaughan Jones fydd y wraig wadd. Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi a bydd lluniaeth ysgafn yn cael ei baratoi.

DIOLCH. Carwn ddiolch i flaenoriaid capel Croesywaun am ganiatau inni gael defnyddio'r festri fel man i blygu rhifyn mis diwethaf yr Eco. Diolch i'r rhai ffyddlon sydd yn helpu yn flynyddol i wneud y gwaith. Gweithiodd Rhydian, Tanycoed a Dylan Bron Llywelyn yn ddiwyd iawn yn plygu'r Eco.

DAMWAIN. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad at Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart sydd wedi torri ei ffer pan ddisgynnodd ar balmant y stryd. Mae Kiron Hesperides hefyd wedi torri ei goes. Anfonwn ein cofio am wellhad buan iddo yntau.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Ovary, Pant y Waun sydd yn yr ysbty ac at Mr Richard Charge, Llifon. Nid yw Richard wedi bod yn dda yn ddiweddar ac mae wedi gorfod treulio cyfnodau yn yr ysbty.

ADREF O'R YSBYTY. Mae'n dda clywed fod Mr Gareth Jones, Bro Waun wedi cael dod adref o'r ysbty. Gobeithio yn fawr y bydd yn dal i wella.

Mae amryw o'r pentref yn cwyno ac yn gaeth i'w cartref. Anfonwn ein cofion cynnes at bob un ohonoch.

GENEDIGAETH. Llongyfarchion i Sandra ac Emyr, Bryn Meredydd ar enedigaeth merch fach, Anest. Dyma chwaer a ffrind bach i Gareth Wyn ac wyres fach i Mr a Mrs W. Jones, Arosfa ac i Mr a Mrs H.O. Jones, Glaslyn.

PRIODAS. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Karen Bound a Michael Elias Owen ar eu priodas.

EISTEDDFOD YR URDD. Dymunwn yn dda i aelodau'r Urdd fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch ddechrau fis Mawrth.

DRAENOG

Mae 'na STORI TU ÔL I'R GÂN ...a stori tu ôl i bob cŵyn! Wedi brifo ei gefn oedd o, ond wyddai neb beth oedd wedi digwydd chwaith. Ond mae'r Draenog yn gwybod! Canwch, hogia...

Pan oedd y nos yn olau
A'r tŷ yn llwch a baw,
Roedd gŵr y tŷ, yn brysur iawn
A dwstwr yn ei law;
Ond yna cafodd niwed mawr
Wrth symud hwfyr dros y llawr.

Tw wit, tw hw-w-w-w-fyr,
Tw wit, tw hw-w-w-w-fyr...

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cadeiriwyd cyfarfod arbennig o Gyngor Cymuned Llanddeiniolen gan y Cynghorydd Len Jones, Deiniolen, pryd y cafwyd trafodaeth gyda'r Arolygydd Aled Jones ynglŷn â phroblemau troseddu yn gyffredinol o fewn pentrefi'r plwyf.

Diolchwyd i'r Arolygydd am iddo gytuno i ddod i'r cyfarfod ar fyr rybudd, ac fe eglurodd y sefyllfa ynglŷn ag adrefnu mewnlol ac, er nad oedd unrhyw drefniant penodol mewn bodolaeth ar hyn o bryd, roedd yna bosiblwydd cryf y bydd y trefniant o 'blismyn i'r cymunedau' yn cael ei fabwysiadu yn y dyfodol agos.

Cyfeiriwyd at y cwynion a geir yn aml ynglŷn â chysylltu â'r heddlu ar frys. Neb yno yn aml i ateb galwadau ffôn; Saeson uniaith yn ateb y galwadau yn aml. Pwysleisiwyd y ffaith ei bod hi'n gwbl angenrheidiol i aelodau o'r cyhoedd fedru cysylltu â'r heddlu yn syth, a hynny yn Gymraeg os dymunir.

Y prif droseddau yn y pentrefi oedd fandaleiddio a lladrata o geir ac o eiddo. Roedd drygiau a gor-yfed yn gyfrifol am nifer helaeth o'r troseddau hyn.

Yn ôl y ffigyrau a

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

LLONGYFARCHIADAU i Stephanie Welsby ar basio Gradd 3 yn ei harholiad offerynnau cerdd yn ddiweddar.

ADREF O'R COLEG. Da gweld David Welsby adref o'r coleg dros wyliau'r Nadolig a chlywed ei fod wedi setlo yn dda yn Neuadd Pantycelyn, Aberystwyth. Pob lwc i ti yn dy arholiadau cyntaf y mis yma.

gyflwynwyd gan yr Arolygydd roedd y troseddau o fandaleiddio a lladrata o geir yn gwella. Yn ystod y deng mis diwethaf y cyfartaledd o achosion a ddaeth i sylw'r heddlu oedd 38, pryd y cafwyd 90 o achosion cyffelyb y flwyddyn flaenorol.

Hysbysodd y clerc ei bod hi'n fwriad ganddo ymddeol o'i swydd ar ôl 46 mlynedd o wasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ni allai gyflawni y gwaith i'w fodlonrwydd oherwydd prysurdeb ynglŷn â galwadau eraill.

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn y swydd gysylltu â'r clerc, Mr Selwyn Griffith, Crud-yr-Awen, Penisarwaun (Ffôn 01286 870095) i gael manylion pellach ynglŷn â'r swydd.

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer

PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

www.s4c.co.uk

PONTEIFI

Drama gyfres newydd sbon sy'n cyfuno'r ysgafn, y digrif a'r dwys. Ymunwch â theulu unigryw'r Morrisiaid sy'n rhedeg Clwb Golff Ponteifi, ym mherfeddion gorllewin Cymru.

8.25PM
BOB NOS SUL
YN CYCHWYN CHWFROR 25

TRANSL888/889

S4C

Gwirfoddolwr yn derbyn clod am waith cadwraethol



Alan Davies yn derbyn ei dystysgrif gan Gwynn Davies a Dewi Jones rheolwr y Parc Natur.

Mae gwirfoddolwr lleol wedi derbyn gwobr Dyfarniad Rhagoraeth am gyflawni 200 awr o waith gwirfoddol. Mae Alan Davies o Lanrug wedi ymgymeryd â gwaith cadwraethol gyda Antur Waunfawr a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol rhwng mis Mai a Thachwedd 2000 drwy gynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm, rhaglen genedlaethol sy'n ceisio annog pobl ifanc rhwng 16 a 24 i wirfoddoli o fewn y gymuned. Mae Alan ar hyn o bryd yn mynychu Coleg Menai ac hefyd yn weithiwr cynorthwyol efo Antur Waunfawr.

Dywed Alan:

'Credaf bod gwirfoddoli yn adeiladu hyder a'i fod yn ffordd dda i bobl ifanc weithio a chyrraedd targedau.'

Ymgymrodd Alan â gwaith cadwraethol efo Antur Waunfawr yn eu parc natur ac fe gynorthwyodd weithgareddau eang yn ymwneud ag ymchwil, tirlunio a'r ardd plannu coed. Dywedodd Dafydd Arfon Jones, Swyddog Addysg gyda Antur Waunfawr:

'Hoffai pawb yn Antur Waunfawr longyfarch Alan Davies ar ei lwyddiant o dderbyn y Dyfarniad Rhagoraeth gyda Rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm. Fe hoffwn ddiolch i Alan am ei gyfraniad gwerthfawr i'r parc natur tra'n gweithio ar wahanol brosiectau gyda'r gweithwyr.'

Hefyd, gweithiodd Alan law yn llaw gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gynllun llwybrau troed Y Carneddau, yn ymgymeryd â gwaith yn ymwneud ag crydu ar y tir

uchel. Meddai Elfyn Jones o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol: *'Mae Alan wedi bod yn wirfoddolwr gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac wedi gweithio gyda chriw llwybr troed yn cynnal a chadw llwybrau poblogaidd yn ardal warchodfa natur Cwm Idwal. Bydd hyn o fudd mawr i ni allu gwarchod ardal sydd a phwysigrwydd cadwraethol ar gyfer ymwelwyr ynghyd â pobl leol. Roedd angen i Alan ddysgu amryw o sgiliau traddodiadol a chaled yn cynnwys codi waliau cerrig sych fel rhan o'i waith gwirfoddol.'*

Cyflwynwyd Alan gyda'r Dyfarniad Rhagoraeth yn Antur Waunfawr gan gynrychiolwyr o Antur Waunfawr a Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd. Roedd Alan hefyd yn derbyn proffil personol yn amlinellu'r sgiliau hynny a dderbyniodd o'i waith gwirfoddol a bydd yn derbyn ffotograff ohono'i hun yn ymgymeryd â'r gwaith.

Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd, sy'n gynllun o dan Mantell Gwynedd, yw Cydlynwyr Lleol Gwirfoddolwyr y Mileniwm yng Ngwynedd ac maent yn helpu pobl ifanc i ymwneud gyda'r rhaglen. Meddai Alys Lloyd Jones, Cydlynwdd Gwirfoddolwyr gyda'r Biwro:

'Mae'r hyn mae Alan wedi ei gyflawni wedi dangos ymroddiad gwyb i waith gwirfoddol, a thra ei fod wedi magu sgiliau eang drwy'i waith gyda'r ddau gynllun, mae ei gyfraniad wedi bod o fudd i'r gymuned. Hoffwn longyfarch Alan ar ei lwyddiant.'

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau calonog i Ada Jones, Ty'n Twll ar ddathlu ei phen-blwydd yn 60 yn ddiweddar. Mae'n dymuno diolch yn ddiffuant iawn i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ac am wneud y diwrnod yn achlysur arbennig iddi. Rydym yn falch fod iechyd Ada dros y blynyddoedd diwethaf wedi gwella mor dda. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

PROFEDIGAETH. Daeth profedigaeth i ran John a Brenda Rouchy, 6 Trem Eilian. Yn ddiweddar, colodd Carol, eu merch sy'n cartrefu yn Poole, Dorset, ei phriod. Mae ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu yn y brofedigaeth hon.

GWAELEDD. Dymunwn adferiad buan i Mr Elwyn Parry, Gwynfa sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cyfarfu'r gangen nos Lun, Chwefror 19 ar gyfer eu Cyfarfod Blynyddol yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo.

Roedd Mrs Pat Parry, VCO Waunfawr yn bresennol. Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn 2001. Llywydd: Mrs Pat Jones; Ysgrifennydd: Mrs Carol

Houston; Trysorydd: Mrs Verna Jones. Darllenwyd y cofnodion gan y llywydd ac amlinellwyd y rhaglen am y flwyddyn. Trafodwyd cystadlaethau cynhyrchion ar gyfer Sioe Grefftau Ffederasiwn Gwynedd o Sefydliad y Merched a gynhelir ddydd Sadwrn, Mai 19 yng Nghricieth. Paratowyd y baned gan Mrs Elinor Williams a Mrs Carol Houston. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Anita Long, gan Mrs Gwenda Roberts.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mawrth 19 ar ffurf dathliad Gŵyl Ddewi, cinio a siaradwr gwadd.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Daeth y Llyfr Emyrnau newydd 'Caneuon Ffydd' i law ar Chwefror 20fed. Mae'r copïau a archebwyd drwy'r Eglwys yn cael eu dosbarthu gan Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir.

Trefn Oedfaon mis Mawrth:

- 4: Mr Evan Jones, Bontnewydd am 10.00
- 11: Parch Eric Jones, Penrhosgarnedd am 5.30;
- 18: Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel am 5.30;
- 25: Parch Glyn Tudwal Jones, Bangor am 10.00.

Plant a Phrofedigaeth

Ni all unrhyw her fod yn fwy na'r un a geir pan fo oedolyn yn ceisio helpu plentyn neu berson ifanc i ddod i derma a phrofedigaeth.

Yn aml, mae rhywun yn meddwl nad ydy'r plentyn yn galaru yn yr un modd ag oedolyn ac i effaith y golled fod yn llai tryblus iddynt. Ychydig yw'r dealltwriaeth o'r ffordd mae galar yn dylanwadu ar ymddygiad y plentyn.

Weithiau mae'r help a roir yn creu camddealltwriaeth ac yn gwneud mwy o ddrwg nag o les i'r plentyn. Pan soniwyd wrth Eluned, merch fach 6 oed, am y gemau a'r partion roedd ei brawd bach yn ei fwynhau yn y nefoedd, roedd hi eisiau mynd ato i fwynhau'r hwyll! Roedd eu hesboniad, wrth geisio lleihau galar Eluned, yn creu mwy o ddryswch, dicter a phroblemau i rieni'r ferch fach.

Erbyn hyn mae cymorth newydd ar gael - 'Pan fo Rhywun yn Marw' - dau lyfr yn pwrpasol, un i blant ac un i athrawon sy'n delio â'r dasg o helpu plant i ddod i derma a cholli rhywun sy'n agos atyn nhw. Mae'r llyfrau wedi eu

cyfieithu gan Gofal Mewn Galar Cruse Cymru ac wedi eu hysgrifennu gan Dwaine Steffes o Aberdyfi sy'n Gwnsler Plant ac yn hyfforddwr profiadol yn ei faes.

Mae'r llyfrau'n gymorth i annog y plentyn drwy onestrwydd a sensitifrwydd i ddeall profedigaeth a marwolaeth. Maent yn gymorth gwerthfawr i rieni ac oedolion sy'n gweithio ym myd plant. Maent yn delio â thestun sy'n aml iawn yn cael ei anwybyddu a'i osgoi ar gyfnod anodd mewn bywyd.

Mae'r ddau lyfr - un ar gyfer disgyblion ac un ar gyfer athrawon ar gael am £4.00, yn cynnwys cost dosbarthu. Archebwch drwy yrru i 'Gofal Mewn Galar', Cruse Cymru, Tŷ Energlyn, Heol Las, Caerffili CF83 2WP.

Cysylltwch â Nest Evans os am ragor o wybodaeth ar 029 2089 0661. Mae hi yn gyn-athrawes ac wedi gweithio yn y cyfryngau. Erbyn hyn mae hi wedi ei hyfforddi i gwnsela plant a phobl ifanc yn ogystal ag oedolion.

CERBYDau CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd - 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

PROFEDIGAETH. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Mr a Mrs Griffith, E. Pritchard a Richard, Pen Dyffryn. Mr Pritchard wedi colli ei frawd yng Nghaernarfon. Yr ydym fel ardal yn cydymdeimlo â chwi yn eich colled a boed i chwi gael nerth y Nef yn ystod y dyddiau tywyll yma.

ANFONWN ein cydymdeimlad llwyraf hefyd i Mr Gwilym Lloyd Williams, Michael a Susan, 9 Rhes Victoria, wedi colli priod a mam annwyl, sef Betty. Mae Gwilym wedi bod yn ffyddlon iawn ac wedi gwasanaethu'r ardal am flynyddoedd pan yn gyrru bws 'Joni Huws'. Os oedd angen neges o Fangor, dim ond gofyn i Gwilym ac fe ddô ag ef. Ei gofio yn dod hefo'r bws ar ôl i beiriant o Marchlyn agor twnnel drwy'r eira ar dro Pen y Bwlch er mwyn i'r bws fedru pasio. O do, fe fu Gwilym yn hynod o ffyddlon i'r ardal.

Gwilym a'r plant, derbyniwch ein cydymdeimlad fel ardal â chwi yn eich colled fawr.

MARWOLAETH. Ar 8 Ionawr bu farw Robert Wyn Jones, neu fel yr oedd yn adnabyddus yn yr ardal, Bobby Wyn. Yr oedd yn 79 mlwydd oed, gynt o Bryn Bella, Fachwen, yn frawd i Beryl a'r diweddar Wilfred. Bu farw mewn ysbyty yn Ipswich, gedy wraig, Frankie a merch, Brenda. Claddwyd Bobby Wyn ar Ionawr 18 yn Ipswich. Cyn y rhyfel bu'n gweithio yn y chwarel. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf â Beryl a'r teulu.

Deallwn hefyd fod mab Beryl wedi dod i gartrefu yn yr hen gartref, Bryn Bella. Estynnwn groeso cynnes iddo i'r ardal.

YN YR YSBYTY. Mae yn ddrwg gennym ddeall fod Mrs Betty Lloyd Roberts, 11 Maes eilian yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth.

Hyderwn y bu iddi gael iachad ac y bydd adref yn reit fuan. Brysa adref Bet!

CLWB ORWIG. Mewn cyfarfod o'r clwb uchod yng nghlwb dringo mynyddoedd Blue Peris, a Mr John Smith yn llywyddu, cafwyd awgrym y buasai newid risetiau yn beth da gan fod rhai ohonynt wedi cael eu trio mewn cyfarfodydd o'r blaen ac wedi derbyn cymeradwyaeth pawb.

Derbyniwyd adroddiad y trysorydd fel un foddhaol a chywir: yr oedd hyn yn cynnwys £50 a wnaed drwy werthu addurniadau Nadolig a hefyd siec o £100 a dderbyniwyd gan Mr John Clifford Jones ar ran yr henoed. Yr oedd hyn ar ben beth a dderbyniwyd ym mis Hydref. Paratowyd y lluniaeth gan Rose a John Cambrell. Enillwyd y raffl oedd Terry Taylor a Betty Boner.

DIOLCH. Dymuna Sara a ninnau fel teulu ddiolch o galon am yr arian a gasglwyd drwy fore coffi a mân bethau eraill er mwyn casglu arian at Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd a Ward Oncoleg, Ysbyty Alder Hay, Lerpwl. Dymunwn ddiolch i Eglwys Dewi Sant Bangor a'r swyddogion, teulu a ffrindiau a hefyd y rhai o fro'r Eco a gyfrannodd mor hael er mwyn i Sara allu trosglwyddo £800 i'r ysbytai uchod.

Mae'n braf gallu dweud fod Sara yn dal i wella ac yn cryfhau o ddydd i ddydd, ond mae peth ffordd i fynd eto. Y dyddiau yma yr ydym yn clywed llawer o redeg ar Ysbyty Alder Hay ond mae ein diolch ni fel teulu yn fawr iawn iddynt. Ni fuasai Sara hefo ni heddiw oni bai am Alder Hay. Peidiwch byth a phaentio pawb â'r un brws.

Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad a phob dymuniad da.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

LLONGYFARCHIADAU i Mark a Manon Bee, 5 Rhes Galngwna ar enedigaeth merch, Elen Lois yn Ysbyty Gwynedd ar 27 Ionawr.

GENEDIGAETHAU. Croeso i aelodau ifancaf cymdeithas Caeathro: Owain Twrog Hughes, Llyngele a Lois Bee, 5 Tai Glangwna.

TEULU NEWYDD. Croeso hefyd i Alan a Sue Griffith, 6 Tai Glangwna a'u genethod, Kelly a Daniel, i gymdeithas y pentref.

TYNFA MISOL. Enillwyd Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Chwefror oedd:

£40: (3) Eryl a Gwenno Jones, Bryn Mair; £25: (35) Norman a Glenda Hughes, Llyngele; £15: (19) Gavin Jones, Plas Glangwna;


£5: (91) Heather Thomas, 4 Bryn y Gof.

Efo'r tywydd wedi gwella gobeithiwn weld cynnydd yn y gwaith o orffen paratoi'r man chwarae newydd cyn bo hir.

CAE ATHRAW. Cyhoeddwyd llyfr gan Swyddfa'r 'Cymru' yng Nghaernarfon o'r enw 'Enwau Lleodedd Sir Gaernarfon'. Myrddin Fardd oedd yr awdur. Ei esboniad ef am enw'r pentref 'Cae Athraw' oedd 'Tebygol mai Draw, sef hwnt, yw y gwreiddiol, nid traw sef ysgolor; hynny yw, Cae Adraw, sef Cae pell Draw, ond iddo gael ei lygru yn Athraw'.

SWYDD NEWYDD.

Llongyfarchiadau i Iona Ceiriog, Erw Wen ar ei swydd newydd yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis.



Mae 'na bobl ffeind yn Llanberis. Yng nghanol yr eira mawr diweddar aeth un dyn i dynnu'r eira oddi ar ei gar. Bu wrthi'n ddyfal yn clirio'r eira a chrafu'r rhew oddi arno, nes bod pob ffenest a lamp yn glir. Sgubodd yr eira oddi wrth bob olwyn a gofalu bod ganddo lwybr clir o flaen a thu ôl i'w gar. Ond pan geisiodd agor drws y car, fe sylwodd ei fod wedi bod yn llanau car ei gymydog! **Roi** di help i minnau y tro nesa daw'r eira, plis?

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONTWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



STRYD FAWR LLANBERIS

Manylion pellach am ein holl deithiau:

(01286) 872777

6 Ebrill - Westlife, Manceinion

14-15 Gorffennaf - Robbie Williams, Caerdydd

20-22 Gorffennaf - Robbie Williams, Milton Keynes

16 Tachwedd - sioe **Mamma Mia**, a siopa Nadolig, Llundain

10 Tachwedd - 2 Rhagfyr - ymweliad 3 wythnos â **Patagonia** (dim ond lle i 5 ar ôl)

'Huw Rich' B.E.M.



Bydd un o drigolion mwyaf adnabyddus y fro yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ddydd Gwener, 16 Mawrth. Hugh Richard Jones, neu Huw Rich i'w gydweithwyr yn Chwarel Dinorwig gynt.

Fe'i ganed yr ieuengaf o saith o blant yn Nhyddyn Rhos, Bethel cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ond, ac yntau ond yn chwech oed, bu farw ei fam ac fe'i magwyd gan ei chwariydd hŷn. Er iddo dderbyn addysg Ysgol Brynrefail bu'n rhaid iddo ymadael yn bymtheg oed oherwydd amgylchiadau teuluol gan fynd i weithio fel prentis beiriannydd i'r chwarel. Gweithiodd am y chwe mis cyntaf yn ddi-dâl gan mai dysgu crefft yr oedd! Yna cychwynnodd ar y cyflog anhygoel o ddwy a dimai y diwrnod - pitw iawn i un a fyddai rhyw ddiwrnod yn brif beiriannydd y chwarel.

Daeth i fyw i Lanberis ar ôl treulio peth o'i blentyndod ym Mhontrhythallt. Yno y priododd â Ceinwen yn 1937 a ganwyd iddynt dri o blant - Elwyn, Brenda a Dilys.

Rhoddodd Huw Rich ei fywyd i'w deulu, y chwarel a'i gapel. Bu'n flaenor uchel ei barch yn ei annwyl Gapel Preswylfa am flynyddoedd a bu'n arwain nosweithiau Parti Preswylfa. O'r parti hwnnw y tarddodd Hogia'r Wyddfa, gyda'i fab yn aelod o'r grŵp poblogaidd. Byddai wrth ei fodd pan fyddai'r 'hogia' yn ymarfer ar ei aelwyd. Ond fel prif beiriannydd y chwarel y cofir ef gan y mwyafrif o drigolion y fro.

Briw i'w fron fu achlysur cau Chwarel Dinorwig yn 1969 gan iddo dreulio ei oes yno. Cofia y dyddiau da, byrlymus lle gweithiau 3,000 o ddynion ar un adeg, ond mae dyddiau'r 'encil

chwith' a'r dirywio anochel yn y farchnad lechi yn frawychus o glir yn ei gof yn ogystal. Daeth yn ddydd y pwysu a'r mesur. Yn ffodus iawn cafodd gyfle gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru i adnewyddu peiriannau a chasglu creiriau. Cynhaliodd y lle hyd ei ymddeoliad yn 70 oed (ugain mlynedd yn ôl, bron). Fe'i anrhydeddwyd yn 1982 am ei waith i'r diwydiant llechi dros y blynyddoedd drwy gynnig iddo'r B.E.M. Derbyniodd yr anrhydedd er iddo feddwl am eiliad pan agorodd yr amlen mai llythyr oddi wrth y Dreth Incwm ydoedd!

Ychydig yn ôl gofynnwyd iddo gyfrannu i raglen Nia Roberts ar Radio Cymru. Y testun dan sylw oedd llysenwau yn y chwarel. Rhestrodd lu o enwau ond wrth gloi gofynnodd Nia iddo,

'Oedd ganddoch chi llysenw, Huw?'

'Oedd,' atebodd heb betruso, 'Huw Rich oedda nhw'n fy ngalw i - er mai tlawd ofnadwy y magwyd fi!' Ateb cryno, sydyn a nodwedda'r chwarelwr 'slawer dydd. Hyd heddiw hoffai atgoffa pawb, "Doedda ni ddim yn gyfoethog - ond mi roeddan ni'n hapus..." Pen-blwydd Hapus Huw Rich!

RHODDION

£20: Er cof annwyl am Myrddin Williams, Penterfyn, Llanrug.

£15: Carys Hamer ac Arwel Williams er cof am Mrs Nan Williams, Llanrug.

£10: Ffermwyr Ieuainc Caernarfon.

£5: Mrs Mari Jones, 24 Hafan Elan, Llanrug; Mr a Mrs R.L. Roberts, Northampton; Teulu Ty'n Llidiart, Waunfawr; Teulu Llifon, Waunfawr.

£2: M. Rainbow, Llanrug.

Cofio'r Arglwydd Cledwyn

Talwyd llawer teyrnged i Cledwyn Hughes ar y cyfryngau ond does neb yn sôn, os yn gwybod, am ei gysylltiad â Llanrug. Byddai'n dod yn aml at ei daid a'i nain, Dafydd ac Ann Hughes, Llys Eryri. Roedd y ddawn lefaru ganddo yn ifanc iawn. Cofiaf fel y byddai yn sefyll y tu allan i'r siop sinc ac yn dynwared ei dad yn pregethu, a ninnau'r plant yn gynulleidfa iddo. Nid anghofiodd ei wreiddiau o gwbl a deuai i'r ardal yn aml gan ei fod yn gefnder i'r Parch Dafydd a Tudor Owen: roedd eu mam yn chwaer ieuengaf i'w dad. Fel y dywedai pobl Caergybi, roedd

yn gartefol iawn hefo pawb.

Mae cydymdeimlad pawb â'r ffermwyr a'u pryder ynghylch y Clwy Traed a'r Genau sydd wedi torri allan yn ne-ddwyrain Lloegr. Mae rhai ohonom yn cofio iddo dorri allan ym Mro'r Eco ym 1957. Roedd tristwch mawr yn Llanrug wrth weld anifeiliaid yn cael eu llosgi ar dir fferm fach Cefn Rhythallt, Ffordd yr Orsaf, (lle mae tri thŷ modern wedi eu hadeiladu erbyn hyn.) Yr oedd arogl ffrio dros y pentref i gyd. Ach-y-fi! Druan o'r ffermwyr.

Mrs G. M. Jones
Dalar Deg, Llanrug



Roedd yna wefru o fath gwahanol yn adeilad Oriel Llanberis yn ddiweddar wedi i griw o ferched y Te Bach orlwytho'r lifft. Mi fetehodd y lifft druan â dringo i'r llawr cyntaf. Beth am **fet bach** mai disgyn i'r **selars** wnaeth y merched druan?



Crysau newydd tim pêl-droed Llanrug, wedi eu cyflwyno gan Dafarn Penbont.

DRAENOG



Rydan ni'n ddigon cyfarwydd â gweld plant yn gwibio o amgylch y lle ar sgwters a

sgidiau olwynion a byrddau sglefrio. Ond golygfa ryfedd iawn oedd honno yn Nôl Elidir Llanberis pan welwyd dyn yn ei oed a'i amser yn rowlio drws ar fwrdd sglefrio. Ffordd newydd o gario nwyddau trwm mae'n debyg, ond tybed pa fath o ddrws oedd o? Drws SELAR tybed?

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr Rhagfyr 2000 oedd:

£20: Jane Elis, Glenydd, Y Ddôl (198); £10: Oscar Evans, Sŵyn Eryri (39); £5: Dafydd Davies, Llangefni (47); Iorwerth Williams, Cilcain (71); Jack Foulkes, 6 Tan-y-cae (28); Jean Williams, Pen Lôn (2); Bessie Elis, 15 Cremlyn (24); Huw Williams, Cefn Gwyn (69); Huw Davies, Ponciau, Llangefni (123); Judith Jones, Gwelfor (201).

CLWB FFERMWYR IFANC CAERNARFON. Braf yw cael cofnodi dechrau blwyddyn lwyddiannus yn hanes y clwb. Daeth sawl aelod i amlygrwydd mewn cystadlaethau a gynhaliwyd yng Nglynllifon yn ystod y mis – Tudur Parry yn ennill y gystadleuaeth gyrru tractor. Derbyniodd unigolion eraill gymeradwyaeth deilwng am eu hymdrechion mewn meysydd amrywiol. Ychydig ymhellach oddi cartref oedd y Ffug Eisteddfod a gynhaliwyd ym Mhorthmadog, ond yr un oedd y llwyddiant gyda'r clwb yn cipio'r Tarian. Diolch i'r rhai a fu wrthi'n ddyfal yn y ddau achlysur.

UNAWDAU BANDIAU PRES. Bu i dri o ieuencid y pentref gystadlu ym Mhencampwriaeth Unawdau o dan nawdd Cymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru, ddydd Sadwrn diwethaf ym Methesda. Yr ieuengaf o'r tri oedd Sion Garth Owen, Tŷr Ysgol sy'n aelod o Seindorf Porthaethwy a chwaraeodd Alaw Araf dan 12 oed; Rhys Hughes, Erddig, aelod o Seindorf Llanrug a enillodd y drydedd wobwr am Alaw Araf ac ail am Amrywiadau dan 14; a Dewi Griffiths, Llwyn Eithin, aelod o Seindorf Biwmares a enillodd yr ail wobwr am Amrywiadau yn yr Adran Agored. Llongyfarchiadau i'r tri ohonoch.

CLWB BRO BETHEL. Yng nghyfarfod y mis diwethaf o dan gadeiryddiaeth y Parchedig Gwynn Williams estynnwyd cydymdeimlad dwysaf yn eu profedigaeth ddiweddar â Mr Dafydd a Mrs Beryl Parry, Saron, hefyd Mr Alun a Mrs Nansi Williams, Bro Eglwys. Dymunwyd adferiad buan i Mrs Margaaret

Hughes, Bro Rhos a fu yn ddiweddar yn glaf yn Ysbyty Gwynedd. Estynwyd croeso yn ôl i'r Clwb i Trefor Williams ar ôl iddo dderbyn llawdriniaeth i'w lygaid yn Ysbyty Gwynedd a derbyniwyd ymddiheuriad gan Mrs Annie Elisabeth Williams, Tŷ Newydd, ein haelod hynaf, am na allai fod yn bresennol. Derbyniwyd gyda diolch rodd at y te gan Mrs Mary Williams, Cilgwyn a dymunwyd yn dda iddi hithau.

Y siaradwr gwadd oedd Mr William James, Bro Eglwys, cyn athro a phrifathro o Fôn sydd, erbyn hyn, wedi ymgartrefu ym Methel. Ei destun oedd Atgofion, yn bennaf amdano ef ei hun yn cael ei fagu yn Y Tyrpeg, nid nepell o'r Fali, Môn. Clywsom sut y bu iddo geisio olrhain hanes ei deulu James yn y cylch. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo ar ran y Clwb gan Jenkin Griffiths.

Paratowyd y te gan Mary Griffiths a Nancy Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar bnawn dydd Mawrth, 6 Mawrth am 1.15 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd, drwy wahoddiad y prifathro a'i staff. Cofiwch ddod a chwpan, soser a phlât.

MERCHED Y WAWR. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Glenys Griffiths, y Llywydd a chydymdeimlwyd â Mrs Nancy Williams ar farwolaeth ei brawd yn ddiweddar. Llongyfarchwyd dwy aelod ar enedigaeth dwy wyres fach, sef merch yr un i Ceri, merch Elizabeth Evans a Manon, merch Ann Elis.

Man cyfarfod y gangen ym mis Chwefror oedd yr Archifdy yng Nghaernarfon yng nghwmni merch un o'r aelodau, sef Lynn Roberts, Archifydd gyda Chyngor Gwynedd, ac un o blant y pentref. Rhanwyd yr aelodau i ddau grŵp a chawsant eu tywys o gwmpas yr amrywiol ystafelloedd gan ryfeddu at yr holl ddogfennau hanesyddol oedd ar gael ym mhob man. Diddorol oedd pori mewn hen bapurau'r *Herald* a gweld hanesion plant yr aelodau a digwyddiadau yn y pentref dros chwarter canrif yn ôl.

Y cyfarfod nesaf fydd dathlu Gŵyl Ddewi gyda bwffe 'Pryd i



Rhai o ddisgyblion Ysgol Bethel yn gobeithio denu sylw Graham Henry

Bawb' yn yr ysgol. Gofynnir am flaendal o £5 i'w dalu i Eirlys W., Glenys neu Enid W. erbyn Mawrth 7.

EISTEDDFOD BENTREF. Mewn pwyllgor a gynhaliwyd yn ddiweddar penderfynwyd cynnal yr eisteddfod eleni ar Dachwedd 3 a'r noson dawnsio ar y nos lau cynt. Y swyddogion am eleni yw Llywydd: Rita Dauncey Williams; Is-lywydd: Glenys Griffiths; Ysgrifennydd: Eirlys Williams; Is-ysgrifennydd: Manon Gwynedd; Trysorydd: Rhys Harris.

Diolchodd y llywydd am waith caled y pwyllgor – yn arbennig i'r ysgrifenyddes, Rhian Hughes am ei gwaith trylwyr a di-flino dros y tair blynedd ddiwethaf.

Yn dilyn caredigrwydd llawer o fusnesau lleol a charedigion y pentref, cafwyd adroddiad lewyrchus gan y trysorydd. Croesawyd dwy aelod newydd, sef Manon Gwynedd a Manon Griffiths. Taer erfynnir am hyfforddwr/wraig i'r partïon dawnsio gerin. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag Eirlys Williams ar 670088.

CARTREF ST TEILO. Mwynhad pur gafwyd gan drigolion y Cartref pan ddaeth Côr Lleisiau'r Gweunydd a'u Harweinyddes, Mrs Einir Wyn Williams, Rhiwlas atynt bnawn Sul, Rhagfyr 10. Hoffai pawb yn y Cartref ddiolch yn fawr i'r cwmni am brynawn bendigedig. Hefyd roedd perfformiad y tair chwaer, Manon, Malan a Medi Wilkinson a'r unawdydd, Carys o Dal-y-bont, Conwy wedi cyffwrdd calon pawb.

Diolch unwaith eto am ffyddlondeb Glenys Griffiths i'n diddanu. Daeth pedwar o'r capel

gyda hi a chafwyd noson ddifyr dros ben ac ymunodd y trigolion a'r staff a hwynt i ganu Carolau.

Cafwyd pnawn difyr unwaith eto efo ffrind arall, Trefor Williams, ar ddechrau Chwefror. Bu'n chwarae hen dapiau o ganeuon Cymraeg gwreiddiol tra'n dathlu pen-blwydd Katie Thomas yn 99 oed! Llongyfarchiadau a chariad mawr iddi hi.

DIOLCH. Dymuna Barrie a Ceri, 8 Y Glyn, Caernarfon ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y galwadau ffôn, cardiau a'r anrhegion ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Catrin, chwaer i Richard.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

**Gwynedd
Hotel
& Restaurant**

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant – disgo a.y.y.b.

Bwrdd Pŵl ar gael
Bwydlen Bar a Restaurant
Trwydded lawn tŷ tafarn.

PRYD I BAWB

**Bwffe blasus o safon
at bob achlysur**

CINIO BUSNES

BEDYDD

PEN-BLWYDD

TE ANGLADDAU

**CERID MACKINNON
(01286) 673190**



Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

A HEFYD
COFIWCH AM EIN

BeliBistro

Ffoniwch am fanylion

Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO
nos Wener olaf pob mis

Ar Ben Arall y Lein

Does dim sgota wedi bod ers diwedd Hydref ac mae'n sicr fod milltiroedd o blu wedi eu cawio yn ystod y cyfnod yma. Ni fydd rhaid disgwyl yn hir eto gan y cawn weld gwawrio dymor newydd ar Fawrth 3. Be yw'r rhagolygon tybed? Wel, o gymryd y tymor diwethaf fel ffon fesur mae yna obaith am dipyn o hwyl, yn enwedig ar yr afon. Pam, meddech chi, fy mod yn dweud hyn?

Yn ystod y flwyddyn a fu fe ddaliwyd 72 o eogiaid - i fyny o 14 yn 1999. Hefyd roedd y nifer o sils sewin a fudwyd i'r môr yn 2000 y mwyaf a welais ers o leiaf ddeng mlynedd. Felly rydym yn obeithiol y bydd y sewin eleni yn dangos cynnydd sylweddol. Os gwelwn hyn yna bydd ein gwaith yn dangos ffrwyth arbennig.

Mae ceisio gwella pethau fel jig-so: am amser maith does dim yn digwydd a dim byd i'w weld yn mynd i'w le. Yn yr ardal yma roedd cryn dipyn o waith tynnu at ei gilydd i ddatwneud y niwed a wnaed i ddalgylch y Seiont yn gyntaf. Yn fy oes i fe adeiladwyd Gorsaf Bwer Dinorwig ac mae'r gwaith yn fedndithiol iawn wrth gwrs, ond y broblem yw, fel rwyf wedi adrodd yma droeon, y llwybr pysgod yn Nant Peris. Dywedais yn rhifyn Chwefror ein bod yn cyfarfod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar First Hydro, felly y bu a dyna un rhan fawr o'r jig-so yn dod i'w le. Yno cadarnhaodd y cwmni y bydd gwaith i gywiro'r broblem yma yn cael ei dechrau yn ystod y misoedd nesaf. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn. Newyddion ardderchog.

Yn ystod yr un cyfarfod gwelwyd darn mawr arall yn disgyn yn hwylus ofnadwy i'w le. Problem enfawr arall wedi ei gorchfygu, sef yr *eutrophication* o Lyn Padarn drwy i ormod o ffosffad gael eu rhyddhau i'r dyfroedd o waith carthffos Llanberis. Mae'r peiriant tynnu llygredd yma nawr yn gwneud

ei waith ac mae ansawdd y llyn yn gwella'n fisol. Roedd y broblem yma'n enfawr a buasai'r llyn wedi ei ddifetha'n llwyr heblaw am bwysau gan y gymdeithas.

Newyddion ardderchog arall yw fod ein cais i Barc Eryri am gymorth i adeiladu ffordd, maes parcio a harbwr ar Lyn Cwellyn wedi bod yn llwyddiannus. Bydd y gwaith yn dechrau yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd y datblygiad yma yn un arbennig, yn enwedig i'r anabl.

Rhyw ychydig yn ôl holais a fuasai rhywun yn gallu enwi mwy na 32 o fusnesau a oedd unwaith yn rhoi prysurdeb i bentref Deiniolen - dau dorgoch oedd y wobwr. Cefais enwau 39 gan Mr Alun Wyn Evans, Deiniolen ac mi fuasai'n well gan Mr Evans gael tun samwn na thorgoch, medda fo. Wel, tun samwn amdani ta, ac un go arbennig hefyd. Rwyf wedi dod ag un iddo o Ganada. Diolch yn fawr unwaith eto, Alun. Daliwch ati.

Peidiwch anghofio hefyd y ddau ddyddiad canlynol: Nos Sadwrn, 10 Mawrth yng Ngwesty'r Celt Caernarfon. Noson gyda'r grwpiau Celt a Profiad, tocynnau ar gael yn y Pet Shop Llanberis, Siop y Pentan Caernarfon, Bert Parry, Llanberis neu unrhyw aelod arall o'r pwyllgor gwaith.

Y noson arall yw nos Iau, 15 Mawrth am 7 o'r gloch yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis. Arwerthiant Offer Pysgota. Lle am fargen, efallai!

Y diwrnod o'r blaen tra'n cerdded y dyfroedd i ddechrau paratoi at y tymor newydd. roeddwn ym Mhen Llyn. Mae'n wir fod cryn lifogydd wedi bod dros y gaeaf ac wedi cario llawer o sbwriel hefo nhw ond, fel y gwelwch o'r llun, dyma'r llanast

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**


sydd ar ôl ar ochr Fachwen o'r llyn. Pwy sy'n gyfrifol am hyn tybed? Mae ein haelodau'n gwneud llawer i geisio tacluso'r fro ond nid yw'n ddyletswydd arnynt lanhau llanast fel hyn. Rydym yn clywed llawer fod

eisiau denu mwy o bobl ddiarth i'r ardal i hybu'r economi. Beth yw eu sylwadau tybed pan mae golwg fel hyn yn eu croesawu yn un o lecynnau harddaf a mwyaf poblogaidd ein sir.

Huw P. Jones



Y Sbwriel a'r llanast ar lan Fachwen o lyn Padarn.



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo


Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

AAW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559




SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: **650218**

CROESAIR MAWRTH



AR DRAWS

1. Pren a all fod yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n chwarae ar yr Oval neu yn Old Trafford (7)
10. Ffieiddio (5)
11. Dinas yn chwalu gan adael defnydd llathraidd (5)
12. Tristwch (5)
13. Cefnogaeth trethi Nan? (8)
14. Mynachlog (8)
16. Traean o chwech sgwar (5)
18. Y Blew sydd ar ben rhai ohonom (5)
20. Nerf i ddinistrio llawer (5)
22. Llywethau (8)
23. Chwysigod dyfrllyd yn chwalu o gwmpas y da (8)
26. Genethod y gogledd (5)
29. Meddyginiaeth gryfhaol (5)
34. Un sy'n ymwneud â chysylltiad organebau a'u hamgylchedd (8)
38. Llinyn ffrwyn Haf Wyn? (5)
39. Dod yn aneglur (5)
40. Hen glasp gwag o amgylch canol y Wyddeles (5)
41. Adlonni (7)

I LAWR

1. Gwylanod llwyd (7)
2. Golau wedi ei grynodi yn belydryn main, pwerus (5)
3. Morgrugun (9)
4. Cyfnod tywyll palindromig (5)
5. Llyncu mul (4)
6. Lluman (5)
7. Clwstwr bychan (7)
8. Dail rhai gwymon o'r môr (5)
9. Byddwn yn cofnodi yn rhain (9)
- 15 a 25. Gŵr a gwraig sydd â phlant ganddynt (3 a 3)
17. Yn ddisymwth yn sgwrs y dyn ar y radio (5)
18. Gwewyr (5)
19. Heb fod yn swllyd (5)
22. Hanfod y teulu? (3,1,5)
24. Yn dechrau bod (9)
27. Un sy'n 41 ar draws (7)
30. Graean (7)
32. Ydw, mi ydw i!!! (5)
33. Cynhyrchion electroleiddiad (5)

35. Clir, fel dŵr afon y bardd (5)
36. Hen waywffon (5)
37. Gwynt ysgafn o 19 i lawr (4)

Yr horosgop oedd thema croesair y mis diwethaf a'r pethau byw oedd y rhai sy'n gysylltiedig â chyfnodau arbennig yn y flwyddyn, e.e. PISCES (y pysgodyn) rhwng Chwefror 20 a Mawrth 20, sef rhwng dyddiau 51 a 79 o'r flwyddyn ac.y.y.b.

Y rhai a'i 'gwelodd' hi, fel petae, oedd Nansi Davies, Rhuthun, N. Hughes, Cwm-y-glo; Eluned Jones, Trefor; Jennie Williams, Clynnog; Catherine A. Jones, Rhiw; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Mair Evans, Caernarfon; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Olwen Jones, Bethel; Chris Roberts, Llanrug; Nan Owen, Llanberis; Alan ac Ann Roberts, Brynsiencyn; I. Jones, Borth y Gest; Gwen Davies, Neston; Alice M. Griffith, Dinorwig; M.P. Jones, Clynnog; Elfed Evans, Llanllechid; E.E. Jones, Rhoshirwaen; Margaret W. Roberts, Caernarfon; Olwen Owen, Llanberis; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Moreen Lennon, Llanberis ac enillydd y mis, sef Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug. Llongyfarchiadau a £5 i chwi.



CALENDR MIS MAWRTH

1. Iau: **LLANRUG.** Plaid Cymru. Dathlu Gŵyl Ddewi yn y Bistro, Llanberis
2. Gwe: **YR ARDAL.** Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd ym mhob pentref.
DEINIOLLEN. Cyngerdd er budd yr Ysgol Feithrin yn Ebeneser am 7 o'r gloch.
5. Llun **DEINIOLLEN.** Cymdeithas Llandinorwig. Swper i ddathlu Gŵyl Ddewi.
6. Maw: **PENISARWAUN.** Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn yr ysgol am 7.00
BETHEL. Clwb Bro yn yr Ysgol Gynradd.
LLANRUG. Undeb y Mamau. Gwerthu Dillad.
- 8 Iau: **DEINIOLLEN.** Cyfarfod y chwiorydd yn Ebeneser am 2.00 o'r gloch.
12. Llun: **DEINIOLLEN.** Y Cyngor Eglwys.
- 19 Llun: **BRYNREFAIL.** Sefydliad y Merched. Cinio Gŵyl Ddewi.
DEINIOLLEN. Merched y Wawr. Cinio Gŵyl Ddewi yn Antur Waunfawr.
26. Llun: **DEINIOLLEN.** Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan y Parch Tegid Roberts.

RHODDION

Rhifyn Mawrth

£10: Idwal a Gwyneth Roberts, Merddyn Coch, Llanberis; Mrs Olwena Morris, er cof am ei

Ar ôl cwblhau croesair mis Mawrth gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd LL55 3HE erbyn Mawrth 19.

Math o 1 ar draws ydi 6, 28, 31, 42 ar draws a 21 i lawr.

phriod Gwilym Peris Morris, 4 Rhes Efrog, Llanberis; Teulu Sara, d/o 7 Bro Elidir, Dinorwig.

£5: Catrin Lloyd Roberts, Cwmorthin, Bryn Eglwys, Bethel; Mrs Sioned Lewis, 3 Bro Elidir, Dinorwig; Mr a Mrs John Brenan, Afallon, Dinorwig; Mrs Beryl Shields, Llandudno.

£3: Rhian Davies, Ael-y-Glyn, Ffordd Clegir, Llanberis.



Cymdeithas Y Plant (The Children's Society) Ymwelwyr annibynnol

Oes gennych ddiddordeb mewn gwneud gwaith gwirfoddol gyda phlant a phobl ifanc?
Mae Cymdeithas y Plant yn chwilio am wirfoddolwyr dwyieithog i weithio fel Ymwelwyr Annibynnol gyda plant a pobl ifanc mewn gofal yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
Byddwn yn cynnwys asesiad gofalus ac hyfforddiant sy'n arwain at gymhwyster, goruchwyliaeth a chefnogaeth.
Os oes gennych ddiddordeb:

Cysylltwch a ni yma ar **0800 085 2274**

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes
a physgod.
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR. ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

CHWARAEON

Ydy'r Canmlwyddiant yn Sbardun?

Cwestiwn teg iawn, o gorlannu canlyniadau chwaraeon diweddaraf Ysgol Brynrefail. Yr hyn sy'n galonogol yw'r tir newydd sy'n denu sylw – yn enwedig pêl-fasged a rygbi. A yw'r twf ym mhoblogrwydd y gemau 'lleiafrifol' hyn i'n hardal yn cael ei adlewyrchu yn niffyg rhai o'n 'prif' dimau pêl-droed.

Ym myd y bêl-fasged cafwyd clamp o gêm yn erbyn yr hen elynion, Caergybi, yn rownd derfynol adran Eryri o gwpan -14 Ysgolion Cymru. Y sgôr derfynol oedd 51-50 i Frynrefail. Yn sgil y llwyddiant yma bydd yr hogiau yn teithio i lawr i Gaerdydd – ie fan honno unwaith eto! – ar gyfer y rowndiau terfynol cenedlaethol.

Mewn sioc go iawn curodd yr ysgol gêm rygbi agos iawn 19-15 yn erbyn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Hon oedd rownd gyntaf Cwpan Gwynedd i'r oedran hyn, a daeth dau gais i Frynrefail oddi wrth Owain Williams a David Herbert. Barn un o'r llygaid dystion oedd fod mwy o gythraul yn chwarae'r tîm cartref, a pharch amlwg yng nghynrychioli'r ysgol. Dylai'r gêm yn yr ail rownd yn erbyn hogia cyhyrog Bala greu tipyn o wres!

Aeth carfan gref o bron i 50 o redwyr i gynrychioli'r ysgol ym mhencampwriaeth traws gwlad Gwynedd yng Nglynllifon. Mewn ras o gryn safon aeth pedwar rhedwr – David Jones, Urien Deiniol, Gwion Owen a Thomas Pritchard drwodd i Bencampwriaeth Eryri yn Nolgellau.

Mae'r prif sylw yn mynd i'r tîm pêl-droed dan 16. Hwy erbyn hyn yw pencampwyr Eryri yng Nghwpan Cymru. Daeth eu llwyddiant o chwalu Ysgol John Bright, Llandudno o 5-1. Eu gwobr yn rownd yr 16 olaf fydd gêm gartref yn erbyn Ysgol Llanfyllin, Maldwyn, pencampwyr Talaith Powys. Rhys Morris gyflwynodd yr adroddiad, a diolch iddo am ei ddisgrifiad 'lliwgar' a ffraeth

Ond nad anghofir y genethod hefyd. Tîm gyda thipyn o ysbryd ynddo yw tîm pêl-rwyd Bl.9. Yn croniclo hanes dwy o'u gemau nhw yn erbyn Syr Hugh a Friars, Bangor mae Claire Pritchard. Diolch iddi hi hefyd am ei chyfraniad.

Chwaraeodd tîm pêl-rwyd Bl.7 eu trydedd gêm o'r tymor. Roedd hon yn erbyn yr Howgets a hanner cyntaf digon diffiach a gafwyd gyda'r sgôr yn 1-1. Taniodd y genethod yn yr ail hanner a daeth 8 gôl i Carmen Lloyd a 4 gôl i Caryl Wood. Y sgôr terfynol oedd 12-3 i Frynrefail.

Daeth llwyddiant yn Mhencampwriaeth Traws Gwlad Merched Arfon. Cafwyd ras unigol i Fl.7 ac yna genethod Bl. 8 a 9 yn cystadlu yn yr un ras. Yn yr oed

iau daeth Rosie Thomas yn gyntaf ac yn yr ail ras roedd Sioned Evans yn 5ed a Nicki Hill yn 6ed yn oed Bl.8 a Sarah Perrin yn 4ydd yn adran genethod Bl.9. Yn y ras gyfatebol ar lefel Eryri daeth Sarah adref yn yr 11ed safle.

Pêl-droed dan 16

'Wel, unwaith eto roedd yn rhaid i hogia Brynrefail fentro allan i chwarae gêm mewn tywydd pryd y byddai chwiaid yn meddwl aros adref. Gwynt a glaw yn chwipio ar draws y cae, ond roedd digon o dân ym moliau'r hogia. Tipyn o siom wedi 10 munud pan aeth yr ymwelwyr ar y blaen. C ic rydd o 25 llath yn mynd drwy'r wal a dim gobaith i Gavin Davies yn y gôl. Dyma arwydd i'r hogia ddeffro a daeth ysbryd y tîm i'r wyneb. Erbyn hanner amser roedd goliau Aaron Atkinson a Jonathan Gordon wedi rhoi mantais i ni. Tipyn o bregeth gan Mr Holland hanner amser – yr un roedden ni wedi ei chlywed bedair blynedd yn ôl! (*Oes copi o'r araith – er mwyn ei rhannu gyda rheolwyr eraill yr ardal. Gol.*) Dim ond un tîm oedd ynddi yn yr ail hanner. Gyda phwynt wrth ein cefnau, chwythwyd John Brights allan o'r cwpan. Daeth dwy gôl i Aaron, ac un o hanner ffordd gan Owain Morris. Ymlaen felly i'r rownd nesaf – a phregeth arall gan Mr Holland!

Rhys Morris

Pêl-rwyd Bl.9

Ar Ionawr 31 chwaraeodd tîm pêl-rwyd Bl.9 yn erbyn genethod Ysgol Syr Hugh Owen. Pan gafodd y chwib ei chwythu i ddechrau'r gêm roedd genethod Brynrefail wedi cael y bêl i fewn i'r rhwyd gyda sgiliau sgorio Ceri Jones. Yna fe gafodd genod Syr Hugh y bêl yn y rhwyd i wneud y sgôr yn 1-1. Wedyn dechreuodd Brynrefail chwarae eu gorau a chyn dim roedd Ceri Jones wedi rhoi'r eêl yn y rhwyd unwaith eto. Sgoriodd Sarah Perrin ddwy gôl arbennig i wneud y sgôr yn 4-1. Ond yna fe gafodd Syr Hugh y



Tim pêl-droed – 16 Brynrefail, Pencampwyr Gwynedd

gorau ohonom a sgoriwyd un arall. Cafodd Ceri ddigon o amser i roi y bêl yn y rhwyd unwaith eto cyn i'r chwib hanner amser gael ei chwythu.

Yn yr ail hanner daeth Syr Hugh yn ôl yn gryf ac fe ddaeth eu tro hwy i sgorio. Yna cawsant ddwy arall i wneud y sgôr yn 6-4. Sgoriodd Brynrefail un arall a'r tro yma Sarah a sgoriodd, ond dal i chwarae'n gryf wnaeth Syr Hugh. Ymhen dipyn roeddent wedi gwneud yn sgôr yn gyfartal eto, 7-7. Ond dal eu pennau i fyny wnaeth genethod Brynrefail a, gyda phawb yn chwarae'n dda, fe sgoriodd Ceri y gôl olaf o'r gêm i fynd a Brynrefail ar y blaen o un gôl. Chwythodd y chwib a'r sgôr terfynol oedd Ysgol Syr Hugh 7, Ysgol Brynrefail 8.

Dydd Iau, 8 Chwefror roedd tîm pêl-rwyd Bl.9 yn mynd i Fangor i chwarae yn erbyn tîm pêl-rwyd Ysgol Friars.

Ond yna, dyma Sarah Perrin, ein sgoriwr gorau yn tynnu allan oherwydd salwch ond mi feddylwyd am y person perffaith i chwarae yn ei lle, Fiona Nesfield. Ar ôl i'r chwib gael ei chwythu roedd Fiona wedi rhoi Brynrefail ar y blaen ond daeth Friars yn ôl a chyn dim roedd y sgôr yn gyfartal. Sgoriodd Fiona ddwy gôl wych arall. Roedd genod Friars yn trio'n galed i gael y bêl oddi ar Frynrefail ond dal i chwarae'n gryf wnaethant a, phan gafodd Ceri Jones afael ar y bêl, roedd yn syth yn y rhwyd.

Roedd y sgôr yn awr yn 4-1. Cyn i Frynrefail gael cyfle i sgorio eto roedd hi'n hanner amser. Ar ôl

gair sydyn gyda'r tîm roedd hi'n amser chwarae eto. Daeth Friars yn ôl yn gryf ond Brynrefail oedd y cryfaf a sgoriodd Ceri Jones un arall. Roedd Friars yn dechrau blino a cyn dim roedd Ceri wedi sgorio eto. Ar ôl lot o frwydro, chwythwyd y chwib llawn amser ac roedd Brynrefail wedi cael buddugoliaeth arall. Y sgor ar y diwedd oedd Friars 1 – Ysgol Brynrefail 6.

Claire Pritchard

Y Gynghrair Amdani

Trist ar yr olwg gyntaf oedd derbyn y newyddion fod Llanrug – fel Llanfairpwll a'r Felinheli – wedi tynnu'n ôl o gystadleuaeth Cwpan Her Gogledd Cymru. Oherwydd y tywydd bu cryn oedi a methwyd â chwarae eu gêm bedwaredd rownd yn erbyn Bodedern. Yr agwedd drist yw na chaiff y chwaraewyr gyfle i chwarae yn erbyn timau 'gwell' a thynnu sylw at y clwb gweithgar yma.

Dyma brif gwpan y gogledd a diddorol yw sylwi mai'r rddor fwyaf ar gyfer gêm rownd derfynol oedd 12,000 yn gwylio Caergybi yn chwarae Porthmadog ym Mangor ar ddiwedd y 50'au. Dyw Bangor ddim yn denu hynny o dorff i'w holl gemau cartref mewn tymor erbyn hyn. Trist onide!

Ond gwelaf un ochr obeithiol i'r tynnu allan. Roedd Sadyrnau 'hesb' y cwpan yn amharu ar allu Llanrug i chwarae gemau Cynghrair Gwynedd – ble maent yn ail i Bwlheli gyda gemau mewn llaw. Barn y clwb yw mai'r Cynghrair yw'r prif darged eleni. Yr hyn sy'n obeithiol fe dybiaf i felly yw fod y clwb yn barod i fentro ymlaen i gynghrair yr 'Alliance' os daw y pencampwriaeth i Eithin Duon.

Amharod fu rhai o'r clybiau lleol i fentro am flynyddoedd. Bu Llanberis yma yn Arfon, a Gwalchmai ar Ynys Môn yn rheoli y cynghreiriau lleol pan oedd ganddynt dimau a fuasai wedi medru cystadlu ar lefel uwch. Braff yddai gweld Llanrug yn mentro ymlaen a chael gêm ddarbi 'go iawn' yn erbyn y Locos y tymor nesaf. Braff fuasai meddwl hefyd bod llwyfan yn yr ardal yma i chwaraewyr lleol dawnus y fro ddangos eu sgiliau. Os nad yw'r system pyramid yn gweithio yng Nghymru, ni all ddigwydd ym Mro'r Eco!



Tim Rygbi Hŷn Brynrefail